This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

+ *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
+ *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
+ *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
+ *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at `http://books.google.com/`

LLOFFION O YSGRIFENIADAU

Y DIWEDDAR

MR. WILLIAMS, BODLONDEB.

14198
f 351

600096659+

14198 f. 351

Uloffion.

Llofion

O

YSGRIFENIADAU

Y DIWEDDAR

MR. WILLIAMS, BODLONDEB,

MACHYNLLETH.

GYDA CHOFIANT A NODIADAU.

Presentation Copy.

MACHYNLLETH:

ARGRAFFWYD GAN ADAM EVANS, HEOL PENYRALLT.

1869.

Bt. from widow of Bob Owen, Croesor

BODLEIAN
P
20 DEC 1965
LIBRARY

Dymuna Mrs. Williams gyflwyno y "LLOFFION" hyn o ysgrifeniadau ei diweddar anwyl Briod, fel Rhodd i Athrawon yr Ysgol Sabbothol, mewn coffadwriaeth serchog am dano ef, ac fel arwydd o gariad a chyfeillgarwch tuag atynt hwythau, yn nghyd a phob dymuniad am eu llwyddiant a'u dedwyddwch.

J. F. J.

Bodlondeb, Mehefin, 1869.

CYNNWYSIAD.

Tudal.

Cofiant 9

Traethodau.

I. Yr Eglwys yn ei Natur a'i Rhagorfreintiau... 23

II. Yr Ysgol Sabbothol a'i Haddysg 33

III. Y Sabboth yn ei Darddiad a'i Ddyben ... 38

IV. Undeb â Christ a Chyfiawnhâd 44

Amrywion.

I. Casgliad o Adnodau ar Grefydd Deuluaidd... 57

II. Nodiadau Cymanfäol 62

III. Iawn Ymddygiad i'r Efengyl... 72

Nodiadau Pregethau.

I.	Y Parch.	Foulk Evans, Machynlleth ...	75
II.	„	John Charles, Gwalchmai	78
III.	„	John Elïas, Llanfechell	80
IV.	„	Ebenezer Richards, Tregaron ...	83
V.	„	Humph. Gwalchmai, Llanidloes ...	85
VI.	„	John Hughes, Wrexham	87
VII.	„	Henry Rees, Liverpool	89
VIII.	„	David Jones, Caernarfon	92

COFIANT.

Yr oedd Mr Williams yn enedigol o Sir Fon. Ganwyd ef yn Lledwigan, gerllaw Llangefni, Mai 7, 1787. Perthynai i deulu parchus a chyfrifol; a chafodd yntau, o ran dysg a dygiad i fyny, bob manteision ag y gallesid eu dysgwyl y pryd hwnw oddiwrth deulu felly.

Pa bryd a pha fodd y derbyniodd Mr W. ei argraffiadau crefyddol cyntaf, yr ydym wedi methu cael allan i sicrwydd; ac nid yw yntau wedi gadael dim nodiadau ar ei ol gyda golwg ar hyn. Ond un peth, os nad y peth cyntaf a effeithiodd i ddeffro ei feddwl i raddau o ystyriaeth a difrifwch oedd *gweled* ereill yn pechu yn rhyfygus yn erbyn Duw. Yr oedd hyn, dybygid, yn ystod ei arosiad yn Chirk, ar gyffiniau sir Amwythig—gwlad nad oedd, y pryd hwnw yn enwedig, wedi ei darostwng gan yr efengyl ond i raddau bychain iawn. Dychrynai wrth weled yr annuwioldeb a'r annhrefn a ffynai yn y parthau hyny—"neb yn ceisio Duw, neb yn deall:" a'r lluaws mawr ar 'y ffordd lydan,' a'u gwynebau tua dystryw tragwyddol. Bu hyn, debygid, yn foddion i'w gyffroi yntau i feddwl am ei fater ei hun. Dychrynai rhag cael ei ollwng i fyned gyda'r llif; a gwaeddai fel y Salmydd, "Na thyn fi gyda'r annuwiolion, ac na chasgl fy enaid gyda phechaduriaid." Gadawodd Chirk gydag argraffiadau lled

ddwys ar ei feddwl; a pharhaodd yr argraffiadau hyn i gynyddu ar ol ei ddychweliad adref i Ledwigan, nes peri iddo anesmwythyd mawr. Yr oedd yn amlwg erbyn hyn fod llaw Duw wedi cyffwrdd ag ef, a bod ysbryd Duw yn ei arwain ar hyd ffordd nad adwaenai efe. Derbyniodd Mr. W. argyhoeddiad amlwg a dwfn—aeth trwy y bwlch *ar ei hyd*, a dygwyd ef i wasgfa a chaledi mawr. Cafodd olygiadau bywiog iawn arno ei hun fel pechadur; teimla ei hun yn adyn tlawd andwyol, heb ddim yn ei aros ond digofaint Duw a thrueni tragwyddol. Bu am amser, fel y tystiai wrthym un tro, ar fin anobaith, a'i fynwes yn cael ei rhwygo gan ofnau a gwasgfeuon blin. Ofnai lawer noswaith fyned i'r gwely rhag iddo ddeffro a chael ei hun cyn y boreu yn uffern: ac yn nghanol hyn i gyd yr oedd ganddo y fath syniadau am sancteiddrwydd Duw, a phurdeb a manylrwydd ei gyfraith, fel y credai y buasai y Bôd mawr yn berffaith gyfiawn yn ei dragwyddol gospedigaeth. Dyna fel y bu ar Mr. W. yn nechreuad ei grefydd—mor wahanol i ni, broffeswyr claiar ac arwynebol yr oes hon! Gallasai ef ddweyd fel y Salmydd, "Ing a blinder a gefais; gofidiau uffern a'm cylchynasant; maglau angeu a achubasant fy mlaen." Ond yn ei gyfyngder galwodd yntau ar yr Arglwydd, fel Dafydd, ac Efe a'u gwaredodd.

Pa hyd y bu Mr. W. yn ngafael y peryglon a'r gwasgfeuon hyn, nid ydym yn gwybod; ond bu am rai wythnosau os nad misoedd, cyn cael tawelwch a gorphwysdra. Fel llong ar y mor, wedi ei dal gan ystormydd a chroes-wyntoedd, y mae weithiau yn gorfod treio mewn llawer cyfeiriad cyn cael hafan a lloches—felly y bu arno yntau; tröai weithiau at yr Eglwys Sefydledig, gan feddwl angori yno; bryd arall tröai ei wyneb at y Wesleyaid; a phryd arall at yr Annibynwyr; ond gyda'r Methodistiaid, dybygid, y dygwyd ef i gilfach a glan iddi. Yr oedd y Parch. Thomas Owen, Llangefni, yn bresennol ar y pryd, ac yn ddyn ieuanc o

ddeutu yr un oed ag yntau. Dywed ef mewn llythyr atom, ei fod yn "cofio yn dda y nos Sabboth y daeth Mr. W. i'r *Society* ar ol oedfa yr hen frawd, Mr. John Huxley o Gaernarfon, er ei fod wedi cael tueddu ei feddwl er ys tro i ddyfod i wrando i hen gapel y Methodistiaid i Langefni. Bu yn bur ddifrifol ar feddwl ein hanwyl frawd pan yn cychwyn ei yrfa grefyddol; ond fe gafodd olwg ar ogoniant y Gwaredwr bendigedig, nes gorphwys ei enaid arno am byth."

Fe barodd rhai o athrawiaethau yr efengyl gryn boen a phryder i'w feddwl y pryd hwn, yn enwedig *etholedigaeth.* Y mae yn resynus meddwl y camddefnydd dirfawr sydd wedi ei wneuthur o'r athrawiaeth hon gan ddychweledigion ieuainc, ac yn wir gan rai "athrawon heb ddeall." Parodd hyn gryn ddyryswch i feddwl Mr. W. Poenodd lawer yn 'nghylch ei etholedigaeth bersonol ef ei hun—a oedd efe wedi ei ethol? Ond daeth y gair hwnw ato gyda nerth ac awdurdod mawr—"O ddyn, pwy wyt ti yr hwn a ddadleui yn erbyn Duw; onid oes awdurdod i'r crochenydd ar y priddgist?" Yr oedd hyn bellach yn ddigon iddo ef. Gwelodd mai dyma esboniad Duw ei hun ar y dirgelwch, a phlygodd yntau ger ei fron gyda gwylder a gostyngeiddrwydd sanctaidd. O hyn allan edrychai arni fel dirgelwch i'w gredu nid i'w amgyffred; ond dirgelwch heb fod ynddo ddim cwmwl ar gyfiawnder Duw, nac ychwaith ddim trais ar ei ryddid yntau. Dysgodd Mr. W. o hyn allan i beidio edrych ar etholedigaeth fel mater o *ymwybyddiaeth* bersonol, nac ychwaith fel *ammod* iachawdwriaeth; canys nid yw neb yn derbyn iachawdwriaeth trwy gredu fod Duw wedi ei ethol ef yn bersonol, neu fod Crist wedi marw drosto ef yn bersonol. "*Hyn* yw gorchymyn Duw, gredu o honom yn enw ei Fab ef, Iesu Grist, a chan gredu gael bywyd tragwyddol." Edrychai Mr. W. ar drefn iachawdwriaeth fel cadwen fawr, a'i dolenau uwchaf, megis arfaeth, etholedigaeth, &c., i lyny

yn y nefoedd, ac wedi ei rhwymo yno wrth orsedd Duw; ond cadwen a'i dolenau isaf, megis edifeirwch, ffydd, cariad, &c., ar y ddaear, ac yn ein hymyl ni. Camsyniad mawr yw *strainio* yn ormodol i gael gafael yn y dolenau uchaf, canys "bachgen" ydyw dyn ar y ddaear, nid ydyw eto yn ddigon tàl i gyrhaedd *top y chain*. Y pwnc i ni yw cael gafael yn y dolenau isaf, ac yna fe fydd yr holl gadwen genym yn y man.

"Gellid meddwl," fel y sylwa y Parch. Robert Hughes, Gaerwen, "fod dyfodiad Mr. W. at grefydd wedi cynnyrchu cryn lawer o sylw, nid yn unig yn y cylchoedd agosaf, eithr hefyd trwy y sir: canys yr oedd efe yn aelod mewn teulu uchel, yn llawn mwy felly na'r cyffredin, ac nid llawer o'r cyfryw a dueddid y pryd hyny i ymuno a chrefydd, yn enwedig yn mysg y Methodistiaid; ac yn gymaint ag iddo ddangos, a hyny yn fuan, arwyddion eglur o wir dröedigaeth, dylanwadodd hyny ar unwaith i ddarostwng y rhagfarn teuluaidd, ac i ennill rhai o'r teulu i broffesu crefydd, a'r gweddill o honynt i fod yn ffafriol iddi hyd ddiwedd eu hoes."

Wedi ymuno â'r Methodistiaid, ymrôdd Mr. W. ati o ddifrif. Bu ei flynyddoedd cyntaf hyn yn enwedig, yn flynyddoedd o lafur ac ymroad diflino. Ymrôdd lawer yn ystod y tymhor hwn i ddarllen a myfyrio; a thrwy ddiwydrwydd a dyfalbarhad, ac o dan arweiniad a dysgeidiaeth yr Ysbryd, cynnyddodd lawer mewn barn, gwybodaeth, a phrofiad; a daeth ei syniadau am drefn yr efengyl yn fwy clir, addfed, a sefydlog; a thrwy ei lafur a'i ffyddlondeb, ynghyda'i ddoethineb a'i hynawsedd, profodd ei hun yn ddyn gwerthfawr a defnyddiol iawn. Yn wir, yr oedd ei ymarweddiad sanctaidd y fath y pryd hwn fel y darfu y frawdoliaeth yn Llangefni sylwi arno, a'i ddewis yn swyddog eglwysig, a hyny yn mhen ryw ychydig flynyddoedd ar ol iddo fwrw ei goelbren yn eu mysg, a phan nad oedd eto ond dyn ieuanc naw ar hugain oed.

Oddeutu'r amser hwn y daeth Mr. W. i gydnabyddiaeth â'r diweddar Barch, John Elias, a buont o hyn allan yn gyfeillion mawr i'w gilydd. Teithiasant gyda'u gilydd i hen Gymanfaoedd De a Gogledd; ac wedi i Mr. Elias symud i'r Fron, gerllaw Llangefni, yr oeddynt yn gymydogion agos i'w gilydd. Perthynent i'r un eglwys, a byddent ill dau "yn un ysbryd ac yn un enaid, gan gydymdrech o blaid ffydd yr efengyl." Tystiai iddo gael llawer o fendith trwy weinidogaeth Mr. Elias, a llawer o fudd yn ei gyfeillach. Yn wir un o ddysgyblion Mr. Elias oedd ef ar lawer cyfrif, ac yr oedd nid ychydig o ddelw yr athraw ar y dysgybl; efe oedd ei safon a'i gynllun mawr, ac yr oedd ganddo y meddwl mwyaf o hono, ac o'i enw a'i goffadwriaeth.

Yn y flwyddyn 1819, darfu i Mr. W. ymuno mewn priodas gyda Miss Elizabeth Foulkes, merch i'r diweddar Mr. Foulkes, Machynlleth: a bu bendith a gwyneb yr Arglwydd yn amlwg arnynt ill dau. Fel y sylwa y Parch. Robert Hughes—"bu Mr. W. yn ddedwydd yn ei briodas: efe a gafodd wraig barchus a chrefyddol, ac o'r un tueddiadau crefyddol ag yntau; a bu y naill yn gymhorth mawr i'r llall, ac yn arbenig felly mewn ystyriaethau crefyddol. Gellir dweud am danynt fel am Zacharias ac Elizabeth—"Ac yr oeddynt ill dau yn gyfiawn ger bron Duw, yn rhodio yn holl orchymynion a deddfau yr Arglwydd yn ddiargyhoedd."

Yn y flwyddyn 1835, symudodd Mr. W. o Ledwigan i Frongoch, gerllaw Pentraeth—preswylfa newydd brydferth a adeiladodd efe iddo ei hun ar dyddyn a brynasai i'r dyben hyny, a diameu mai fel "Mr. Williams Frongoch" yr adnabyddid ef oreu gan luaws o'i gyfeillion. Yma y treuliodd y tymhor mwyaf cysurus a dedwydd o'i oes, wedi rhoi i fyny yn awr bob gofalon a gorchwylion bydol, ac mewn mwynhad o fwy o gyfleusderau i ddarllen a myfyrio, a bod yn wasanaethgar i'r efengyl. Diameu mai yn y Frongoch y gorphenasai Mr. W. brydnhawn ei fywyd, ond fel y gorfuwyd

ef i ymadael o herwydd gwaeledd ei iechyd; canys yn y blynyddoedd diweddaf y bu yno, yr oedd y lle eisoes yn myned yn rhy oer iddo; ac yntau dan yr angenrheidrwydd i symud am y tymhor gauaf i hinsawdd mwy tymherus, megis Hastings, Brighton, a manau eraill.

Ond bu o wasanaeth mawr i achos crefydd yn ystod yr holl amser y bu yno. Teithiai lawer er ei fwyn, a gweinai arno yn ei holl gylchoedd yn llawen ac ewyllysgar. Dangosai lawer o fanylwch a ffyddlondeb gyda *Deeds* y Capelau, a gwnaeth lawer i'r Sir yn hyn o orchwyl. Arolygai hefyd gyhoeddiadau y Sir; ac am rai blynyddoedd bu yr achos Cymreig yn Dublin dan ei arolygiaeth. Bu hefyd am yspaid yn Drysorydd Sirol y Feibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor. Teimlai Mr. W. yn gynhes iawn at y sefydliad daionus hwn, a dyddordeb neillduol yn ei weithrediadau; ac yn ei ewyllys gadawodd £200 o waddol i gyllid y Fam-gymdeithas yn Llundain.

Bu dyfodiad Mr. W. i Glanbeuno, gerllaw Caernarfon, yn gaffaeliad nid bychan i'r achos yn y Bontnewydd. Y mae yn ymddangos, o herwydd ryw amgylchiadau neu gilydd, mai lled isel a marwaidd oedd yr achos yn y lle hwn, ac effeithiai hyny yn ddwys ar feddwl Mr. W.; ond trwy ei ymweliadau a'i ymddiddanion personol, ynghyd a'i yspryd gostyngedig a'i ymarweddiad syml, bu yn foddion i beri graddau o gynhwrf a deffroad trwy yr holl gymydogaeth. Chwanegodd yr Ysgol Sabbothol a'r gynulleidfa, fel yr ydym yn deall, i fesur mawr; a daeth yr achos i wisgo gwedd ac yspryd newydd yn ei holl gysylltiadau.

Wedi i Mr. W. symud i Fachynlleth yn y flwyddyn 1863, dechreuodd ei iechyd adfeilio fel ag i'w luddias i wneuthur nemawr gyda rhanau mwyaf cyhoeddus y gwaith; ond trwy ei hir nychdod, yr oedd ei dymher yn hynod o siriol, a pharhaodd i ddilyn ei fyfyrdodau Beiblaidd yn egniol hyd y diwedd. Ei hoff arferiad ef oedd darllen y Beibl o'i gŵr.

Codai oriau cyn boreufwyd i astudio yr Ysgrythyrau; ac wedi darllen rhyw gyfran neillduol, arferai ei hysgrifenu drachefn yn ei ddyddlyfr, mewn trefn i'w hargraffu yn ddyfnach ar ei feddwl; a gwnai y gyfran yn destyn ei fyfyrdodau ar hyd y dydd. Wedi symud i Fachynlleth, ysgrifenodd draethawd bychan ar "Gyfiawnhad,' yr hwn a gynnwysa grynodeb buddiol o'i syniadau ar yr athrawiaeth bwysig hon; a dilynwyd hwn gan draethodyn (*tract*) bychan o'i eiddo, neu "Gasgliad o adnodau ar wahanol ddyledswyddau teuluaidd."

Ac felly, mewn henaint a llesgedd, ni heneiddiodd ei feddwl, ac ni lesgäodd ei yspryd. Ysgrifenodd lawer hyd yn nod yn mlynyddoedd olaf ei fywyd; a phe cesglid holl ysgrifau ei oes at eu gilydd, byddent yn sicr yn ddigon i godi cywilydd ar lawer o honom. Ysgrifenai efe, nid er mwyn eraill, ond er ei fwyn ei hun—ei fantais a'i gyfleusdra, ynghyd a'i les a'i adeiladaeth bersonol ei hun. A chyda golwg ar yr ychydig ag y darfu iddo anturio eu cyhoeddi, nid oedd trwy y cynnyrchion hyn yn proffesu pethau mawr. Nid oedd dim pellach oddiwrth ei feddwl ef na rhyw wag uchelgais llenyddol, ac "arian ac aur neb ni chwennychai" ychwaith. Llafur cariad oedd y cwbl; nid oedd dim a'i cymhellai i hyn o wasanaeth ond y meddwl syml, gonest, gostyngedig hefyd y gallai fod, trwy yr ychydig linellau hyn, o ryw help i rai o aelodau ein Hysgolion Sabbothol. Ac yr oedd fod henafgwr fel efe yn gallu troi holl ffirwd ei ymadferthoedd at efrydiau o'r natur yma, a hyny yn ngwyneb llesgedd a gwendid mawr, yn beth nas cyfarfyddir ag ef yn fynych, ac nis gallwn ni lai nag edrych arno gyda graddau helaeth o hyfrydwch a chymeradwyaeth.

Gwaethygodd Mr. W. tua diwedd y flwyddyn 1866, fel yr ofnid bellach am ei adferiad. Ond wedi ei amddifadu o'r moddion cyhoeddus, dangosodd lawer o ddyfalwch gyda'i ymarferiadau personol a theuluaidd. Ni roddodd i fyny ei

hoff waith o ddarllen nes y bu raid iddo ildio, a daliodd i ysgrifenu ei nodiadau Beiblaidd tra y gallodd ei law grynedig lywio'r ysgrifbin. Wedi myned yn rhy wan i ddarllen ei hunan, byddai Mrs. W., neu rai o'i gyfeillion, yn gwneud hyn iddo; weithiau dewisai ei lyfr a'i gyfran ei hun. Hoffai yn fawr glywed darllen rhai o bregethau Mr. Spurgeon; ac weithiau byddai yn rhaid ei arwain i ben Pisgah i roi golwg iddo ar randir ei etifeddiaeth yn ngwaith ardderchog Mr. Baxter ar "Dragwyddol orphwysfa y saint." Ond y Bibl oedd ei brif lyfr, yn glaf ac yn iach; yr "oedd ei ewyllys yn nghyfraith yr Arglwydd, ac yn myfyrio yn ei gyfraith ef ddydd a nos." Dyma hefyd ei gysur yn ei gystudd.

Dyoddefodd ei gystudd yn dawel ac amyneddgar; a pharhaodd y sirioldeb a'r serchogrwydd hwnw a'i nodweddai yn ei fywyd, yn ddigwmwl hyd y diwedd. Gwenai yn dirion ar bawb a ymwelai ag ef; diolchai am bob cymwynas a weinyddid iddo; ac ar yr adegau mwyaf poenus a fu arno, ni cherddodd dros ei wynebpryd y gradd lleiaf o brudd-der ac anniddigrwydd. Ni fynegai ond ychydig o'i deimladau personol; ac ni fuasid yn dysgwyl peth felly oddiwrth un o nodweddiad meddwl fel yr eiddo Mr. W. Ni roddai efe ei hun fawr o bwys ar hyn un amser; ac yn sicr nid oes fawr o werth i'w roddi ar lawer o ryw frawddegau uchel-seiniol a glywir weithiau, yn enwedig pan y mae lle i ofni nad ydynt ddim ond effeithiau cyffroadau tymher. Ond nid dyn tymherog nwydog oedd Mr. W., yn cael ei gynhyrfu gan bob awel a chwythai drosto, ond un o ymarweddiad gwastad, ac yn meddu ar lawer o hunan-feddiant a phwyll. Traethai ei *farn* yn rhydd a chyfeillgar, ond cuddiai *deimladau* ei galon —dirgelion a chyfrinach ei ysbryd. Ac felly, yn ei ddyddiau olaf, nid llawer a ddywedai o'i helynt personol. Ond yr un pryd, rhwygai y llen weithiau, holltai y cwmwl, a phelydrai ryw adnod arnom o ganol y tywyllwch fel fflachiad mellten. Un tro, ar ol pangfa galed o besychu, gloewai ei lygad, a

dywedai y gair hwnw, "Canys ein byr ysgafn gystudd ni sydd yn odidog ragorol yn gweithredu tragwyddol bwys gogoniant i ni." Byddai weithiau ryw atalfa ar ei anadl, ac ofnid y gallasai gael ei gymeryd ymaith yn un o'r cyfryw *spasms;* ac un noswaith, wedi dyfod i raddau ato ei hun, ar ol un o'r *attacks* hyn, tröai at Mrs. W., a dywedai, 'Wel, pa un bynag ai byw yr ydym, i'r Arglwydd yr ydym yn byw; ai marw, i'r Arglwydd yr ydym yn marw; a pha un bynag ai byw ai marw, eiddo yr Arglwydd ydym.' Wele rai o'i hoff adnodau ar hyd ei oes, a gweinyddasant lawer o gysur iddo yn ei gystudd; "Yr Hwn a osododd Duw yn iawn," "Crist a'n llwyr-brynodd ni oddiwrth felldith y ddeddf," &c., "Yr Hwn nid adnabu bechod, a wnaeth Efe yn bechod drosom ni;" &c., "Yr Hwn nid arbedodd ei briod Fab," &c. Teimlai y gwirioneddau hyn fel creigiau tragwyddol; ac wedi cael gafael ar y graig, nid oedd ganddo bellach ddim i'w wneud ond pwyso arni. Nid cloddio am dani, na gyru am neb arall i ddyfod i gloddio drosto, fel y gwna llawer, ysywaeth, pan y deuant i farw. Gwnai ef hyn yn ei fywyd, ac ar hyd ei fywyd, ac yn awr nid oedd ganddo ddim i'w wneud ond pwyso arni. A phan y mae dyn yn *pwyso*, nid yw byth mewn ffrwst—nid yw yn brysio ac yn gwylltio; a dyma y rheswm fod Mr. W. yn gallu marw mor dawel—*pwyso* yr ydoedd, pwyso mewn ymostyngiad tawel i ewyllys Duw, ac mewn ymorphwysiad llawn ar ei drefn rasol. Pan ar newid ei fyd, nid oedd arno ef eisieu newid ei bethau; a gwyr pawb a'i hadwaenai fod ganddo ef ei *bethau*—trefn a chyfamod Duw, haeddiant a chyfryngdod yr Arglwydd Iesu, ac undeb â'i Berson Mawr; dyma bethau Mr. W.; dyma destun ei fyfyrdodau, a "ffon" ei gysur a'i gynhaliaeth ar hyd ei oes; a phan y daeth i "dynu ei draed i'r gwely i farw," cafodd yntau, fel Jacob, y fraint o farw "a'i bwys ar ben ei ffon." Claddwyd ef yn mynwent Ceidio, gerllaw

Llanerchymedd, lle yr ymgynnullodd nifer mawr o'i hen gyfeillion i'w hebrwng "i dŷ ei hir gartref."

Gwna ei hen gyfaill, y Parch. Henry Griffith, gynt Periglor Llandrygarn, Mon, y nodiadau canlynol, yn mysg eraill, ar rai o nodweddion Mr. W. fel *dyn*, ac y mae yntau bellach wedi dianc o'n mysg.

1. Yr oedd yn un hynod am fore-godi.

2. Yr oedd ein parchus gyfaill yn garedig a siriol o ran ei dymher naturiol, yn gyfeillgar yn ei ymddiddanion, ac yn groesawus yn ei dŷ.

3. Yr oedd yn elusengar i'r tlodion, yn enwedig i'r cleifion a'r rhai helbulus o honynt, ac yn haelionus at bob achos da.

4. Yr oedd yn ddyn o feddwl gwrol a phenderfynol, a dilynai yr amcan oedd ganddo mewn golwg hyd ei gyflawniad, fel pe b'ai annogaeth y gŵr doeth yn wastad yn ei gof—"Beth bynag a ymafael dy law ynddo i'w wneuthur, gwna a'th holl egni."

5. Yr oedd Mr. W. yn meddu ar lawer o wybodaeth ymarferol—*practical man* oedd ef. Wedi ei eni yn amaethwr, deallai amaethyddiaeth a garddwriaeth yn dda yn eu gwahanol ranau: yr oedd hefyd yn gywrain mewn saerniaeth, peirianwaith, ac adeiladaeth. Adeiladodd un annedd iddo ei hun, a chyfnewidiodd amryw eraill er gwell. Heblaw hyny, yr oedd yn fedrus mewn tir-fesuriaeth, a gadawodd ar ei ol liaws o dafleni *(maps)*, y rhai, ysgatfydd, a fyddant yn ddefnyddiol i berchenogion y tiroedd hyny am oesoedd eto.

6. Yr oedd ein cyfaill yn fywiog yn ei symudiadau, ac yn hoff o deithio; ac yr oedd ei wybodaeth fanwl ynghylch cerbydau, meirch, &c., yn fantais iddo yn hyn. Ac nid yn unig i ymweled â'i berthynasau a'i gydnabod y teithiai efe, ond hefyd, ac fe allai, yn benaf, yn achos yr efengyl, ac achosion daionus eraill.

7. Cafodd Mr. W. y fraint o fwynhau iechyd corphorol da am ran fawr o'i oes; ond o herwydd damwain niweidiol a

gawsai gydag agerbeiriant, a gwendidau henaint ar ol hyny, dyoddefodd lawer o boen a chystudd yn y blynyddoedd olaf o'i fywyd. Eithr ymostyngodd i'r cwbl yn dawel ac amyneddgar, gan wybod mai "byr ac ysgafn" yw cystudd plant Duw, a'i fod "yn odidog ragorol yn gweithredu tragwyddol bwys gogoniant iddynt."

Yr oedd Mr. W. yn neillduol am ei gysondeb gyda'r addoliad teuluaidd, ac am y dull doeth a medrus gyda pha un y dygai y gwasanaeth yn mlaen. Yr oedd y "ddyledswydd" yn *great fact* yn ei deulu ef; byddai bob amser ryw newydd-deb ar y gwasanaeth, a chedwid y fath urddas a mawredd ar yr amgylchiad nas gwelir yn aml ei gyffelyb. "Nid ydym yn cofio," meddai y Parch. Robert Hughes, Gaerwen, "gweled crefydd deuluaidd yn ei holl gysylltiadau wedi ei dyrchafu i raddfa uwch nag yn nheulu Mr. a Mrs. W. Arferent addoli trwy ddarllen pennod o'r Beibl, a thrwy i bob un adrodd adnod o'r bennod a ddarllenasid; yna canu a gweddio. Byddwn yn wastad yn teimlo ar adeg yr addoliad teuluaidd yn Lledwigan, fel yn y gynnulleidfa liosog ar y Sabboth—pawb yn cydganu yn gerddgar a soniarus; ac os ydym yn cofio yn iawn, Mr. W., yn fynychaf, fyddai blaenor y gân."

Fel swyddog eglwysig yr oedd Mr. W. yn gynllun rhagorol o'r hen Flaenoriaid Methodistiaidd—dosparth o ddynion ag y bu lle mawr iddynt am flynyddoedd meithion,—dynion egwyddorol, hyddysg yn athrawiaethau yr efengyl, crefyddol eu harchwaeth a'u hyspryd, ac yn neillduol o fedrus i drin profiadau. Bu y dosparth hwn o ddirfawr wasanaeth i eglwysi cyntaf y Methodistiaid, pan yr oedd y pregethu a'r pregethwyr yn anaml, a'r rhai hyny, lawer o honynt, yn fynych oddicartref. Buom yn meddwl y gallasai fod dosparth cyffelyb yn yr oes Apostolaidd, ac y gallasai fod angen neillduol am danynt ar yr adeg hono, fel ar adeg cychwyniad Methodistiaeth yn Nghymru. Ac y mae'r Apostol, wrth

ysgrifenu at Timotheus, yn awgrymu rhywbeth tebyg i hyn. Ymddengys (1 Tim. v. 17) fod rhai o'r henuriaid *(ruling elders)* yn arfer "poeni yn y gair a'r athrawiaeth," a bod y cyfryw i gael eu "cyfrif yn deilwng o barch dau-ddyblyg." Un felly oedd Mr. W. Nid yn unig yr ydoedd yn un oedd yn arfer "llywodraethu yn dda," ond yr oedd hefyd yn un a fyddai yn wastad "yn poeni yn y gair a'r athrawiaeth." "Fel swyddog eglwysig," meddai y Parch. Robert Hughes, "yr oedd yn un o'r rhai ffyddlonaf, ac yn gwir ofalu am y pethau a berthynent i'r eglwys yr oedd efe yn aelod o honi. Gofalai am ei thlodion a'i chleifion, gan gydymdeimlo â hwynt yn eu hadfyd, ac yn wastad yn eu cynnorthwyo. Ni byddai neb yn wan na byddai yntau yn wan, na neb yn tramgwyddo na byddai yntau yn llosgi. Cyrhaeddodd yn lled fuan i restr y diaconiaid blaenaf, nid ar gyfrif ei sefyllfa fydol yn gymaint, ond hefyd ar gyfrif ei deilyngdod swyddol. Y syniad cyffredin am dano ydoedd ei fod yn wr da, yn llawn o'r Ysprŷd Glan a doethineb." Clywsom y diweddar Barch. John Elias yn dyweyd am dano, "fod ganddo lygad craff, er nad oedd mor barablus ag eraill; a rhwng pob peth yr ydoedd yn wr o gyfrifiad crefyddol uchel yn Sir Fon."

Traethodau.

TRAETHODAU.

I. YR EGLWYS YN EI NATUR A'I RHAGOR-FREINTIAU.

Ystyr priodol y gair *eglwys* ydyw cynnulliad neu gynnulleidfa o bobl wedi dyfod at eu gilydd i gydymgynghori a chydweithredu ynghylch unrhyw fater neu orchwyl; ac fe'i defnyddir ef yn yr ystyr yma unwaith yn y Testament Newydd, sef yn Act. xix. 39, 41. Yr hyn sydd bwysig yn ystyr y gair yw, ei fod yn golygu fod yn rhaid i'r cynnulliad fod yn gynnulliad cyfreithlawn ac awdurdodedig, wedi ei ddewis yn rheolaidd. Nid fod y cynnulliad wedi dyfod ynghyd wrth ei reol neu ei fympwy ei hun; ond rhaid ei fod wedi ei alw a'i neillduo i gyflawni dybenion pennodol. Felly rhai wedi eu *dewis*—wedi eu *tynu allan*, ydyw'r eglwys, yn ol ystyr y gair.

Y gair a ddefnyddir yn yr Hen Destament am eglwys ydyw "cynnulleidfa"—"Yn nghanol y gynnulleidfa," meddai y Salmydd, "y'th folaf di," Salm xxii. 22; a dywedir

wrthym fod y gair a ddefnyddia yr Hen Destament yn cymeryd i fewn bob peth sydd yn hanfodol yn ystyr y gair *eglwys*. Yr oedd cynnulleidfa meibion Israel "wedi eu dewis gan Dduw i fod yn bobl briodol iddo ei Hun;" yr oeddynt wedi eu galw a'u neillduo yn arbenig i gyflawni ei ewyllys, ac i gadw i fyny ei wasanaeth a'i addoliad ger bron cenhedloedd y ddaear.

Y mae'r eglwys i'w hystyried mewn dwy ystyr, yn weledig ac yn anweledig. Wrth yr eglwys anweledig y meddylir holl saint ac etholedigion Duw yn y nef ac ar y ddaear. Gellir ystyried y gyfran hono o honi sydd yn y nefoedd fel yr eglwys orfoleddus, neu eglwys y cyfiawnion, wedi buddugoliaethu ar bechod, a phoen, a phob gelyn; ac wedi myned i orphwys oddiwrth eu llafur yma, nid oes ganddynt bellach ond gorfoleddu a llawenychu yn nhragwyddol bresenoldeb Duw a'r Oen. Dyma yr eglwys yn ei gwedd uwchaf, ac yn ei chyflwr mwyaf perffeithiedig; a dyma'r amser y gwelir hi a holl fwriadau a goruchwyliaethau Duw tuag ati wedi eu cyflawni ynddi. Hon yw corph dirgeledig Crist, "ei gyflawnder Ef, yr hwn sydd yn cyflawni oll yn oll," Eph. i. 23. Hon fydd yn cael ei chyflwyno iddo fel ei briodasferch ogoneddus, "Yn eglwys heb arni na brycheuyn na chrychni, na dim o'r cyfryw," Eph. v. 27.

Wrth yr eglwys *weledig* y meddylir yr eglwys broffesedig ar y ddaear, neu yr eglwys yn ei ffurf gymdeithasol, neillduedig oddiwrth y byd. Defnyddia Iesu Grist lawer o gydmariaethau i ddangos yr eglwys yn y wedd hon arni, megis "dinas ar fryn," Math. v. 14; "teyrnas," Luc xix. 11, &c.;

"gwinllan," Math. xxi. 33; y "deg morwyn," Math. xxv. 1, &c. Y mae amryw o bethau yn angenrheidiol er gwneud eglwys *weledig*. Rhaid bod ynddi swyddogion i'w harwain, ei chyfarwyddo, a'i llywodraethu; a dylai y swyddogion hyn fod o'i dewisiad hi ei hun. Rhaid bod ynddi hefyd ymarferiad cyson a pharchus â'r ordinhadau hyny a sefydlodd Crist yn ei eglwys—sef y Gair, y sacramentau, a gweddi, Act. ii. 42; canys heb hyn nid oes ganddi sail i ddysgwyl ei wyneb a'i fendith.

Dylai hefyd fod ei dysgeidiaeth yn bur ac iachus ynghylch athrawiaethau yr efengyl—"eglwys y Duw byw yw colofn a sylfaen y gwirionedd," 1 Tim. iii. 15; Gal. i. 8; Tit. iii. 10; Col. i. 18; Heb. x. 23. Ond eto, tra y perthyn i'r eglwys weledig ymarferiad âg ordinhadau a sacramentau yr efengyl, a phroffes grediniol o'i hathrawiaethau dwyfol, fel sefydliad sydd o ran ei gyfansoddiad a ffurf ei ddadblygiad i raddau mawr yn *ddynol*, y mae yn rhwym o fod yn y byd yma yn gymysglyd ac anmherffaith—canys Duw yn unig sydd yn barnu y galon; ac felly y darlunir hi yn fynych yn nysgeidiaeth Iesu Grist ei hun, gwel Math. xiii.

Perthyna iddi hefyd dan y cymeriad hwn lawer o *amrywiaethau*, a gall hyn fod wedi peri anghysur ac anesmwythyd i ambell feddwl gwan. Ond "angenrhaid oedd dyfod" yr amrywiaethau hyn; y maent yn ffrwyth naturiol amgylchiadau yr eglwys ar y ddaear, ac yn effaith naturiol cyfansoddiad a thueddiad y meddwl dynol. Dechreuodd yr yspryd yma ddangos ei hun yn yr oes Apostolaidd; canys dywedai un—"Myfi yw eiddo Paul," ac un arall, "Myfi yw

eiddo Apolos;" (ond yr oedd hyn yn llawer gwell nac unffurfiaeth farw).*

Meddylia rhai na ddefnyddir y gair *eglwys* yn y Testament Newydd i arwyddo yr eglwys fel cyfan-gorph gweledig, gan gyfyngu y drychfeddwl o eglwys i gynnulleidfa neillduol, megis "Yr eglwys yn Ephesus," &c. Ond ymddengys fod

* Y mae'n wir fod rhyw beth rhamantus yn yr *idea* o "un eglwys;" ac eto y ffaith yw fod y drychfeddwl o grynhöi dynolryw ynghyd yn un gymdeithas neu gorfforiaeth gyffredinol wedi troi allan yn fethiant llwyr, yn wladol ac yn eglwysig. Ymdrechodd y Cæsars wneuthur hyn â Theyrnasoedd Europe, a'r Pab Hildebrand wedi hyny âg Eglwysi Europe; ond darfu Rhagluniaeth fawr y Nef ddyrysu eu cynlluniau yn hollol; ac y mae hefyd yn deilwng o sylw fod yr un amcan wedi aflwyddo gyda golwg ar Eglwysi Prydain. Nid yn gorfforiaethol, ond yn ysprydol—yn yr ystyr ddirgeledig yn unig y gellir cyflawni y meddyldrych goruchel hwn yn ein byd ni. Ni raid i neb edrych yn ddrwgdybus ar ein gwahanol enwadau crefyddol, tra y byddom ni yn ffyddlon i ddal "ffurf yr ymadroddion iachus," ac yn "ddyfal i gadw undeb yr yspryd." Yn ein hanes crefyddol ni fel cenedl, fe allai nad oes dim wedi bod yn fwy o fantais i ni na'r ergyd hwnw, er ei fod yn un digon poenus ar y pryd, a chwalodd yr Eglwys Gristionogol yn wahanol ranau, ynghyd a'r canlyniadau gogoneddus, y rhai, dan fendith yr Arglwydd, a ddilynodd hyny; ac y mae y deyrnas yn gyffredinol yn wir wedi teimlo oddiwrthynt. Parodd hyn lawer o gynhwrf a blinder ar y pryd, ond yr oedd hyny yn llawer gwell na'r ffurfioldeb a'r marweidd-dra a ffynai o'r blaen. Y mae bywyd yr Eglwys fel pob *bywyd*—rhaid iddo gael newid ac amrywio llawer o ran ei agweddau allanol Un o nodweddau mwyaf neillduol bywyd yw lluosogrwydd ei ffurfiau, ac amrywiaeth ei blygiadau, tra eto yn nghanol yr holl amrywiaethau hyn y ffyna yr unoliaeth mwyaf perffaith—unoliaeth Natur, unoliaeth Amcan, ac hefyd unoliaeth Trefn, yr hyn yw ei nerth a'i brydferthwch mwyaf.—GOL.

hyn yn gamsyniad, canys yr ydym yn deall y defnyddir y gair yn yr ystyr mwyaf eang gan Iesu Grist ei hun—"Ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys, a phyrth uffern nis gorchfygant hi," Math. xvi. 18: "Byddwch ddiachos tramgwydd i'r Iuddewon ac i'r Cenhedloedd, ac i eglwys Dduw," 1 Cor. x. 32; a xv. 9.

Ni fu adeg erioed ar y byd nad oedd gan Dduw ei eglwys yma. Byddai weithiau o ran ei chyflwr allanol yn ddigon isel a diymadferth, ac yn wrthddrych gwawd a dirmyg lawer pryd; ond ni fu un cyfnod ar y byd nad oedd hi yma mewn rhyw ystad neu gilydd. Gwnaed ymosodiadau cryfion arni lawer gwaith, a darostyngwyd hi gan erledigaethau creulawn, ond byddai amddiffyn Duw yn neillduol arni yn mhob tywydd a'i cyfarfyddai, fel y gallai ddweud fel yr Apostol yn aml, "Yn mhob peth yr ŷm yn gystuddiol, ond nid mewn ing; yr ydym mewn cyfyng-gynghor, ond nid yn ddiobaith; yn cael ein herlid, ond heb ein llwyr adael; yn cael ein bwrw i lawr, eithr heb ein dyfetha," 2 Cor. iv. 8, 9. Y mae'r dwfr wedi methu ei boddi, a'r tân wedi methu ei llosgi yn llwyr, ond fel y berth yn yr anialwch, yr hwn oedd yn ddrych a chysgod o honi, "llosgi heb ei difa" y byddai'r eglwys yn nghanol ei holl dreialon a'i phrofedigaethau.

Y mae'r eglwys yn dra gogoneddus yn ei brenin, sef Crist, Efe yw ei gogoniant uwchaf. Fel mai y Shekina oedd gogoniant penaf y deml dan yr Hen Destament, felly Crist yn ei bresenoldeb a'i amddiffyn yw gogoniant ac addurn penaf yr eglwys dan y Testament Newydd. Iddi hi y mae pob peth mewn creadigaeth, a rhagluniaeth, wedi ei ddaros-

twng dan ei draed Ef, ac y mae yntau yn ben uwchlaw pob peth i'r eglwys; "Efe a deyrnasa ar dŷ Jacob yn dragywydd, ac ar ei frenhiniaeth ni bydd diwedd," Luc 1. 33; ac y mae genym ei addewid y bydd Ef gyda'i bobl hyd ddiwedd y byd. Efe, trwy weithrediad ac eneiniad ei yspryd sanctaidd, sydd yn galw ac yn neillduo dynion i waith y weinidogaeth. Efe sydd yn eu donio a'u cymhwyso â phob gras a dawn angenrheidiol. Efe sydd yn gosod ynddynt "air y cymod," ac Efe sydd yn bendithio eu gweinidogaeth, i fod yn adeiladaeth i'r eglwys ac yn iachawdwriaeth i'r byd. "Ac Efe a roddes rai yn apostolion, a rhai yn broffwydi, a rhai yn efengylwyr, a rhai yn fugeiliaid ac yn athrawon; i berffeithio y saint i waith y weinidogaeth, i adeilad corph Crist," Eph. iv. 11, 12.

Gyda golwg ar weinyddiad *dysgyblaeth* yr eglwys, y mae y rhagorfraint hon wedi ei hymddiried i'r eglwys ei hun, ond fod y gweinyddiad hwnw i gael ei ddwyn ymlaen yn gyson â rheolau Gair Duw. "Fy nheyrnas i," medd Crist, "nid yw o'r byd hwn;" ac felly nid oes gan benaethiaid y byd hwn hawl i ymyraeth, a llywodraethu, a dysgyblu Eglwys Dduw. Dylai aelodau yr eglwys ufyddhau i'w llywodraethwyr gwladol mor bell ag y mae hyny yn unol âg ewyllys Duw; ac y mae ganddynt hawl i'w galw i gyfrif, a'u cospi, pan droseddant gyfreithiau y deyrnas; ond nid oes ganddynt hawl i arglwyddiaethu ar eglwys Crist, a hyny trwy orchymyn ac awdurdod Crist fel ei Phen. Rhuf. xvi. 17. Galat. vi. 1, 2. 1 Thess. v. 14. 2 Thess. iii. 6.

Y mae holl swyddogion yr eglwys i gael eu dewis ganddi

hi ei hun; ac y mae y Testament Newydd wedi bod yn bur fanwl i gyflwyno i'n sylw y nodau arbenig sydd i fod arnynt, a'r cymhwysderau neillduol a ddylai fod ynddynt—gwel Act. vi. 2, 5; 1 Tim. iii.; Titus i. 6: a'u gwaith wedi eu neillduo yw dysgu a bugeilio eglwys Dduw, Act. xx. 28.

Y mae Dysgyblaeth yn rhan bwysig o Fugeiliaeth eglwysig—sef, rhybuddio y rhai afreolus, diddanu y gwan eu meddwl, cynnal y gweiniaid; a dylid bod yn ymarhöus wrth bawb, ac ymgymeryd â phob mater o ddysgyblaeth mewn yspryd cariad a gweddi, ac eto arfer pob cydwybod mewn addfwynder a gostyngeiddrwydd, a chyda barn a phwyll. Dylid cofio fod swyddogion eglwysig i gael eu ceryddu fel aelodau eraill, pan yn euog o bechodau, a hyny yn fwy o herwydd eu swydd a'u sefyllfa; ac felly, trwy eu pechod, yn agored i roddi mwy o le i elynion yr Arglwydd gablu. Yr oedd yr aberth dros offeiriad o dan y gyfraith yr un a thros yr holl gynnulleidfa, Lev. iv. 3; eto oblegyd fod mwy o elyniaeth gan y byd at y rhai hyn, yr oedd yn rhaid cael dau neu dri o dystion: "yn erbyn henuriad na dderbyn achwyn, oddieithr dan ddau neu dri o dystion," 1 Tim. v. 19. Dylai swyddogion eglwysig fod yn ffyddlon a chydwybodol yn nghyflawniad eu swydd; ac yn wyneb eu bod yn adfeilio mewn zel a ffyddlondeb, dylent gael eu rhybuddio, eu cynghori, a'u hannog i fwy o ddiwydrwydd a gweithgarwch. Y mae sylw neillduol gan yr Arglwydd ar y rhai sydd mewn swyddogaeth eglwysig, ac y mae yn dangos ei anfoddlonrwydd ar y rhai sydd anffyddlon, ac yn eu rhybuddio y bydd iddo gymeryd eu rhagorfraint oddiarnynt, Dat. ii.

Y mae'r awgrymiadau a geir yn y Testament Newydd gyda golwg ar ffurf-lywodraeth eglwysig mor ychydig, fel y mae yn anhawdd, os nad yn anmhosibl, sylfaenu unrhyw gynllun neillduol arnynt.* Ond y ddwy swydd, dybygid, a osododd yr Apostolion i fod yn sefydlog a pharhäus yn yr eglwys oedd swydd "henuriad," neu "esgob," neu "fugail"

* Y mae y sylw hwn o eiddo Mr. W. yn deilwng o ystyriaeth. Yn adeg sylfaeniad Cristionogaeth gan yr Apostolion, ni phenderfynwyd ar unrhyw ffurf neu gynllun o gyfansoddiad eglwysig, iddynt hwy eu hunain nac i neb o'u dilynwyr. Nid oedd hyn, y mae yn ymddangos, yn unol a'u hamcan wrth ysgrifenu eu hepistolau, onide buasem, dybygid, yn cael mwy o gyfarwyddiadau gyda golwg ar hyn, ac ni fuasai y peth yn cael ei adael mor ben-agored. Yn eglwys y Testament Newydd y mae y ffurf bob amser i ddyfod o'r grefydd, ac nid y grefydd o'r ffurf, fel o dan yr Hen Destament. Fel y dylai dyledswyddau y Grefydd Gristionogol godi o'i hathrawiaethau, felly y dylai ei ffurfiau godi o'i hyspryd—hyny yw, o'i hyspryd yn gweithio ac ystumio ei hunan yn ol fel y byddo yr amgylchiadau yn gwasgu arni oddiallan, Y mae'n wir fe wnaeth Duw i blant Israel gynllun o ffurf-lywodraeth eglwysig, a chorff o drefniadau eglwysig; a hyny, yn mlaen llaw, cyn iddynt gael eu corffori yn eglwys ac yn genedl sefydlog. Ond fel arall y sefydlwyd eglwys y Testament Newydd—yma yr oedd y cynllun i *dyfu* yn naturiol o'r amgylchiadau. Daeth yr Apostolion o flaen y byd heb gynllun; hyny yw, heb unrhyw drefniant eglwysig cyflawn a pherffaith. Gwneud eu rheolau fel yr oedd eu heisieu y byddai'r Apostolion—*ffitio* eu trefniadau eglwysig i *fold* yr amgylchiadau. Fel hyn yn union y dewiswyd y "saith diacon." Wedi i Grist osod i lawr egwyddorion sylfaenol ei deyrnas, gadawyd y manylion *(details)* i synwyr ysprydol yr eglwys ei hun, ond iddi hi ofalu na wnaed dim ond a fyddai yn unol â'i feddwl a'i ewyllys Ef, ac yn gyson âg yspryd ac amcan ei deyrnas yn y byd.—Gol.

(y gweinidog) a swydd "dïacon"—hyny yw, gweinidogion a blaenoriaid. Ac eto y mae lle i feddwl na fyddai y Cristionogion cyntaf ddim mor fanwl gyda'r swyddau hyn ag ydym ni. Fe fyddent hwy yn eu cymmysgu yn fynych: byddai y gweinidog ar brydiau yn gwneud gwaith y dïacon, a'r dïacon ar brydiau yn gwneud gwaith y gweinidog, ac yn myned allan i fedyddio a phregethu, Act. viii. 5, 13.

Rhaid addef ein bod ni yn rhagori llawer ar ein tadau yn ein cynlluniau a'n trefniadau, yn eglwysig a chynnulleidfaol; ond y mae perygl llenwi ein heglwysi âg aelodau meirw—gyda'n haddoldai gwych, gwyliwn fod "fel beddau wedi eu gwyngalchu." Dylai y rhai sydd yn cynnyg eu hunain i'r eglwys fod ganddynt radd o olwg ar eu cyflwr colledig fel pechaduriaid, a golwg hefyd ar Grist fel Ceidwad. Y mae gwir argyhoeddiad yn sicr o ddyfod a dyn at Grist am ei fywyd. Chwiliwn am arwyddion fod dynion wedi eu hail-eni! Bu amser pan yr oedd y byd a'r eglwys yn mhell oddi wrth eu gilydd; ond y mae yn awr wedi newid yn fawr. Y mae manteision addysg, a dylanwad cyffredinol yr efengyl, wedi diwygio llawer ar y byd, ac wedi ei ddwyn yn nes at yr eglwys; ond, o'r ochr arall, y mae'r eglwys yn ei ffurfioldeb a'i chlaiarineb, a thrwy wrthgiliad ei hyspryd, wedi nesu yn ormodol at y byd. Dylid arfer pob moddion tuag at y rhai sydd oddi allan, megis ymweled ac ymddiddan â hwy. Dylid gofalu yn neillduol am blant yr eglwys—dangos gwerth pethau crefydd iddynt yn foreu, eu meddiannu yn nechreuad eu ffordd, a'u sefydlu yn nyledswyddau ac egwyddorion y broffes Gristionogol. Dylid dwyn ar gof

iddynt eu bod wedi eu bedyddio, a'u dysgu yn athrawiaeth ac amcan y Bedydd. Ac felly am ordinhâd Swper yr Arglwydd—os byddant yn blant syml, hardd eu rhodiad, ac awyddus am gyflawn aelodaeth, ni ddylid ar un cyfrif eu gommedd.

II. YR YSGOL SABBOTHOL A'I HADDYSG.

Y MAE genym bellach lawer o sefydliadau crefyddol yn ein gwlad; ond nid oes genym un, fe allai, mwy pwysig na'r Ysgol Sabbothol. Diameu y gellir dweyd ei bod yn nesaf at y pulpud mewn anrhydedd a dylanwad; dyma Jachim a Boaz—dwy golofn fawr ein Teml Gristionogol. Dylem barchu a gwerthfawrogi ysgolion eraill; ond y mae hon yn rhagori llawer arnynt hwy, fel y mae y Beibl yn rhagori ar bob llyfr arall, ac addysg grefyddol ar bob addysg arall.

Fe fu ein byd ni yn amddifad o air Duw mewn llyfr. Dechreuodd Duw hyspysu ei feddwl i'w greaduriaid trwy arwyddion a gweledigaethau: gallesid crynhöi yr holl wybodaeth oedd gan y byd y pryd hwnw am Dduw i ychydig awgrymiadau aneglur; ac yr oedd dull eu trosglwyddiad i oesoedd dyfodol yn hynod o ansicr, sef trwy gyfrwng traddodiad. Parhaodd y cyfnod hwn, y mae'n debyg, am yspaid dwy fil o flynyddoedd—sef o Adda hyd Moses. Ond darfu i'r Arglwydd, o herwydd llygredigaeth y byd, weled yn dda fyrhau oes dyn i 120 o flynyddoedd, fel yr oedd eisieu bellach rhyw gyfrwng mwy sicr a pharhaus i gorffori meddwl ac ewyllys Duw, ac yn enwedig i'w drosglwyddo i oesoedd dyfodol. Dyma'r adeg y dechreuwyd ysgrifenu meddwl

Duw mewn *llyfr:* ac y mae'r deg gorchymyn yn mysg yr ysgrifau hynaf y mae genym ni hanes am danynt.*

Yn raddol iawn felly y daeth y byd i feddiant o air Duw: bu hyn yn wir yn waith oesoedd a chenhedlaethau lawer, ond y mae genym ni yr holl Ddadguddiad Dwyfol yn gyflawn. Cydnabyddwn ddaioni yr Arglwydd yn hyn, canys wele ei holl feddwl genym ni, a'r Beibl, yn llaw yr Ysgol Sabbothol a'r Efengyl, yw yr achos o'r wedd ag y sydd ar ein gwlad.

Yr ydym ni o dan rwymau neillduol i fod yn ymdrechgar o'i phlaid. Nid oes neb mor ddyledus iddi a ni; ac y mae ei hamcan mor oruchel—rhoi a derbyn addysg yn mhethau Duw. Y mae yn gosod dyn ar ffordd sydd dda; y mae yn ei hyfforddi yn mhen ei ffordd, ac yn dweyd wrtho, "dos yn mlaen hyd y diwedd." Dylai yr athrawon fod yn ffyddlon a llafurus gyda'u dosparthiadau. Bydded iddynt, gyda'u hegwyddori a'u dwyn yn mlaen mewn gwybodaeth a llafur,

* Y mae hyn yn ddiau yn wir; ac y mae Mr. W., wrth gyfeirio at y ffaith uchod, wedi gochelyd y camgasgliad a dynir yn fynych oddiwrth hyny—sef, mai yn rhoddiad y ddeddf trwy Moses y rhoddwyd y gelfyddyd o ysgrifenu i'r byd. Gwyr pawb sydd yn hyddysg yn hanesiaeth a llenyddiaeth yr hen Aiphtiaid mai camsyniad yw hyn; ac yn wir, nid ydym heb rai awgrymiadau ysgrythyrol sydd yn profi hyny. Cyn rhoddiad y ddeddf ar Sina, cawn fod Duw yn gorchymyn i Moses gofnodi ei fuddugoliaeth ar Amalec trwy ei "ysgrifenu mewn llyfr," Ex. xvii. 14; ac yn Gen. v. 1, sonir am "lyfr cenhedlaethau Adda," yr hyn sydd yn awgrymu y posiblrwydd, o leiaf, o ryw fath o ysgrifenu cyn y diluw.

ofalu fod yr addysg o natur a thuedd grefyddol, yn gyfryw ag a fyddo weithiau yn gafaelyd yn y galon a'r gydwybod; o leiaf, dylai bob amser fod yn fuddiol ac adeiladol. Beth mor fawr a fyddai pe gallai pob athraw ddweud wrth ei ddosparth fel Paul wrth henuriaid Ephesus—"nid atteliais ddim o'r pethau buddiol heb eu mynegu i chwi," Act. xx. 20. Y mae rhai o gynghorion yr Apostol i Timotheus yn dra phriodol ar hyn: gochelyd y cyfryw bethau "ag a baro ddigter a dadl," peidio bod yn "wag-siaradus, ac yn rhodresgar, gan adrodd pethau nid ŷnt gymmwys," 1 Tim. v. 13: gochelyd pob "ymryson ynghylch geiriau, *yr hyn* nid yw fuddiol i ddim," a phob "cyndyn ddadleu dynion llygredig;" ynghyd ag "ynfyd ac annysgedig gwestiynau, gan wybod eu bod yn magu ymrysonau," 2 Tim. ii. 14, 23.

Y mae genym bob sail i ddisgwyl llwyddiant ar lafur gonest a chywir: ni fydd ffyddlondeb heb ei wobr. Nid oedd gan y diweddar Mr. Raikes ond dwy athrawes pan yn dechreu gyda'r Ysgol Sabbothol; ond mawr fel y mae Duw wedi bendithio ei ymdrechion ef a'i gydlafurwyr! Y mae'r sefydliad erbyn hyn wedi myned i bedwar cwr y byd, a'r ffordd y cerdda y mae yn gadael llwybr goleu ar ei ol. Y mae o bwys mawr cael rhai ffyddlon gyda'r gwaith hwn; y mae'r cyfryw, pan heb feddu cymaint o ddawn a thalent, wedi gwneyd gorchestion cyn hyn. Mewn teulu parchus a chyfrifol yr oedd morwyn unwaith, yr hon a ystyrid gan ei meistr a'i meistres yn wir dduwiol. Gofynai iddynt ryw ddiwrnod a gai hi wahodd ychydig o'i chyd-ieuenctyd i'r tŷ, i'w dysgu yn ngair yr Arglwydd. Caniatawyd iddi ei chais

yn ddioed. Un tro, daeth y feistres i edrych arni, ac i wrando ar ei haddysgiadau; ond, cyn hir, ennillwyd y wraig foneddig i ymuno â dosparth y forwyn, ac yna ennillwyd y meistr hefyd. Yn mhen amser yr oedd pregethu yn y tŷ, ac arddeliad mawr fu ar hyny; ond y diwedd fu i ryw un fyned i sefydlu eglwys yno, a phwy oedd y rhai cyntaf yn cynnyg eu hunain ond y meistr a'r feistres. Byddwn ninau yn ffyddlon yn ein gwahanol gylchoedd—bydd son am hyn yn y farn! Gofalwn yn fwy na dim am yr ieuenctyd. Y mae llygad yr Ysgol Sabbothol yn neillduol arnynt hwy; a dyna y mae hi yn ei ddweyd wrth y dosparth hwn—"tyred gyda ni, a gwnawn i ti ddaioni."

Dylai yr athrawon hefyd arfer pob cydwybod gyda'u dosparthiadau, a gofalu na bo dim ynddynt hwy a fyddo yn bradychu yr ymddiried a roddwyd ynddynt. Bydded iddynt gofio mai eneidiau sydd ganddynt dan eu gofal; eu bod yn ymwneyd â'u meddyliau, ac y byddant mewn amser dyfodol yn rhwym o fod un ai yn well neu ynte yn waeth o fod dan eu dwylaw hwy; ac nid peth bychan yw gallu dweyd, ar ol blynyddoedd o lafur gyda'u dosparth, "ni lygrasom ni neb." Bydded iddynt gofio fod y rhai sydd dan eu gofal yn bechaduriaid, fel y gallont fod yn llawn tosturi a ffyddlondeb i geisio eu hachub a'u dychwelyd; a hyny yn fwy am fod yr amser yn fyr, canys gall un o'u hysgolheigion fod yn nhragwyddoldeb cyn y Sabboth nesaf! A chyda dysgu crefydd, ni ddylent fod heb ddysgu pob rhinwedd iddynt: moesgarwch a boneddigeiddrwydd; iawn ymddygiad tuag at bawb—eu huwch-radd a'u his-radd; parchu pawb,—caru y frawd-

oliaeth,—ofni Duw,—ac anrhydeddu y brenhin. Dylent fod yn athrawon yn mhob peth, a gofalu na fyddo dim yn eu hesiampl a'u hymddygiad hwy yn anghydweddol âg urddas ac amcan eu swydd, nac yn tueddu, yn y mesur lleiaf, i dori min eu dylanwad ar eu dosparth, ac felly gwneyd eu haddysg yn ofer ac yn ddifudd.

III. Y SABBOTH YN EI DARDDIAD A'I DDYBEN.

HAERA' rhai mai gorchymyn *seremonïol* yw y pedwerydd gorchymyn. Ond y mae yn anhawdd gweled sut y gallasai neb feddwl hyn, canys nid yw yn sefyll yn y dosparth seremonïol. Os ydyw hwn o natur seremonïol, y mae yn rhaid, dybygid, fod y rhai sydd o'i flaen ac ar ei ol felly hefyd. Ond, yn lle hyny, y mae y pedwerydd gorchymyn yn sefyll yn nghanol y ddeddf foesol, ac yn rhan arbenig o honi; efe yw y gorchymyn olaf yn rhestr y llech gyntaf, yr hon sydd yn cynnwys gwahanol rwymedigaethau dyn yn ei berthynas â'i Greawdwr.

Dangosodd Duw ei Hun fod gwahaniaeth neillduol rhwng cyfraith y deg gorchymyn a'r gyfraith seremonïol, Deut. v. 22; xxxi. 26. Ni chawsant eu cyhoeddi ar yr un adeg, nac yn yr un dull; "bys Duw" a ysgrifenodd y naill, Moses ei hun a ysgrifenodd y llall. Fe ysgrifenwyd y ddeddf foesol ar ddwy lech faen, Ex. xxxi. 18; ond y gyfraith seremonïol mewn llyfr: gosodwyd y naill gyda difrifwch mawr yn yr arch, yn y Sancteiddiolaf, Deut. x. 25; tra nad oedd llyfr y gyfraith ond wrth ei hochr tu allan iddi," Deut. xxxi. 24, 26: ac y mae yn rhaid, dybygid, fod y gwahan-

iaeth hwn a wnaed gan Dduw ei Hun yn ddrych ac yn brawf o'r rhagoriaeth arbenig hwnw oedd yn perthyn i'r ddeddf foesol fel y cyfryw; a chan fod y pedwerydd gorchymyn yn rhan o honi, y mae yn rhaid fod yr urddas a'r awdurdod hwnw sydd yn perthyn i'r oll o honi, yn perthyn i'r gorchymyn hwn yn neillduol.

Y mae llawer wedi cael ei ddweyd am y Sabboth fel sefydliad Moesenaidd; ond dylid cofio fod y Sabboth yn bod cyn yr oruchwyliaeth hono; y mae yn bod cyn y diluw, a chyn y cwymp, yn wir.* Y mae y Sabboth yn hynach na phechod, Gen. ii. 2, 3. Gellir ei olrhain yn ol i baradwys. Nid oedd Adda heb Sabboth yn ei ystâd o ddiniweidrwydd; yr oedd yn cadw Sabboth cyn iddo bechu; ac ni pheidiodd a'i gadw, fel y mae genym le i gredu, ar ol iddo bechu.

Yn yr hanes sydd genym am sefydliad y Sabboth Moesenaidd, nid yw yn ymddangos fel peth newydd. Yr ydym yn ei gyfarfod, yn wir, cyn rhoddiad y ddeddf ar Sina; er nad oedd y Sabboth eto wedi ei sefydlu yn ffurfiol, ond yr oedd y *peth* yma. Wedi dyfod plant Israel "i anialwch Sin," dechreuasant duchan o eisieu bara. "Yna y dywedodd yr

* Nid peth *goruchwyliaeth* yw y Sabboth—y mae cyn ac uwchlaw pob goruchwyliaeth. "Y Sabboth a wnaethpwyd er mwyn dyn"—yr oedd dyn fel dyn yn gofyn Sabboth. O ran ei feddylddrych gwreiddiol, trefniant yw y Sabboth gyda golwg ar ddyn fel creadur, ac nid fel pechadur; ac nid yw y gwahanol gyfnewidiadau sydd wedi bod arno ond gwaith Duw yn ei gyfaddasu i gyfarfod âg angenrheidiau moesol a chrefyddol y ddynoliaeth.

ARGLWYDD wrth Moses, Wele, mi a wlawiaf arnoch fara o'r nefoedd: a'r bobl a ânt allan, ac a gasglant ddogn dydd yn ei ddydd; fel y gallwyf eu profi, a rodiant yn fy nghyfraith, ai nis gwnant. Ond ar y chweched dydd y darparant yr hyn a ddygant i mewn; a hynny fydd dau cymmaint ag a gasglant beunydd." Ond dyma y rheswm,—"Y fory y mae gorphwysfa Sabboth sanctaidd i'r ARGLWYDD. Gwelwch mai yr ARGLWYDD a roddodd i chwi y Sabboth; am hynny efe a roddodd i chwi y chweched dydd fara dros ddau ddydd: arhoswch bawb gartref; nac aed un o'i le y seithfed dydd. Felly y bobl a orphwysasant y seithfed dydd." Ex. xvi. 4, 5, 22, 23, 29, 30. Ac nid yn unig hyny, ond trwy gadw y manna rhag pydru ddau ddiwrnod cyfan, fe wnaeth yr Arglwydd wyrth o blaid sancteiddiad y Sabboth, a hyny bob wythnos am yspaid deugain mlynedd. "Y mae yma yn wir," fel y sylwa Fairbairn, "dair gwyrth o *blaid sancteiddiad y Sabboth*—sef dau cymaint ar y chweched dydd, dim ar y seithfed, a chadw dogn y seithfed dydd rhag pydru trwy yspaid y Sabboth."—*Typology*, ii. 67.

Y mae y rheswm, hefyd, a ddygir, paham y dylem gadw y Sabboth, yn deilwng o'n sylw. Beth yw hyny? Paham y gelwir ar feibion Israel yn yr anialwch i gadw y Sabboth; gorpheniad y greadigaeth? Nid oedd hyn ddim mwy i'r Iuddew na rhyw un arall; nid oedd dim lleol neu wladol yn hyn, fel y mae rhwymedigaeth dyn i gadw y Sabboth yn cael ei sefydlu ar y seiliau mwyaf eang a chyffredinol—sef gorpheniad y greadigaeth, a gorphwysiad Duw ei Hun ar ol hyny. Ond sylfaen ein Sabboth ni, sef y Sabboth Cristion-

ogol, yw gorpheniad gwaith y Prynedigaeth, a gorphwysiad Cyfryngol Mab Duw ar ol hyny. Darfu Iesu Grist ei Hun roddi anrhydedd mawr ar y dydd hwn pan yn y byd yma. Dyma'r dydd ar ba un, dybygid, y gweddnewidiwyd Ef, Luc ix. 28, a dyma'r dydd ar ba un yr adgyfododd o'r bedd, a dyma'r dydd hefyd ar ba un y tywalltwyd yr Ysbryd. Byddai hefyd yn arfer ymddangos i'w ddisgyblion ar "y dydd cyntaf o'r wythnos," Luc xxiv. 13, ac y mae genym brofion lawer mai ar y dydd hwn y byddai y Cristionogion cyntaf yn arfer cyfarfod a'u gilydd i addoli.

Ystyr y gair Sabboth yw *gorphwysfa*, ac fel y cyfryw y mae y Sabboth yn angenrheidiol i ddyn, yn dymhorol ac yn ysprydol. Mae cyfansoddiad ei gorph, angenrheidiau ei natur, ynghyda llwyddiant masnach, a llesiant a dedwyddwch cymdeithas yn gyffredinol, yn galw am Sabboth. Mewn gwlad fel hon y mae gormod o *strain* arnom, gormod o draul ar y peiriant dynol—gormod o *wear and tear;* ond y mae y Sabboth yn fendith anrhaethol i ni fel moddion i adgyweirio traul a cholled yr wythnos, ac i adgyfnerthu ysbryd ac iechyd cymdeithas. Ni ddylid bod yn ddisylw o'r manteision hyn, nac yn anniolchgar am danynt; ond pa faint mwy gwerthfawr yw y Sabboth fel dydd addoliad y genedl; canys y mae rhyw beth mewn gofalon a gorchwylion bydol sydd yn tueddu i gadw dynion oddiwrth wasanaeth y cyssegr, ac yn enwedig i anghymwyso y meddwl at ddefosiwn crefyddol a myfyrdodau pur a sanctaidd. Ac fel y mae nodwedd grefyddol unrhyw wlad neu genedl i'w adnabod, i fesur mawr, wrth y parch a delir ganddi i'r Sabboth, felly y gellir

barnu dyn yn bersonol, i fesur mawr, wrth y syniad sydd ganddo am y Sabboth, a'i ymddygiad yn ei wyneb fel dydd Duw. Yn hanes plant Israel, pan y byddai y genedl wedi syrthio i agwedd isel ac adfeiliedig o ran eu crefydd, cwynid o herwydd eu hymddygiad anmharchus tuag at y Sabboth. Mynych y mae y prophwyd Ezekiel yn dwyn y cyhuddiad hwn yn eu herbyn: Ezec. xx. 12, 13, 16, 21; xxii. 8; xxiii. 38.

Pa fodd yr halogir y Sabboth? 1. Trwy weithio. Peidio gweithio ydyw drychfeddwl cyntaf y Sabboth—"Chwe diwrnod y gweithi; ac ar y seithfed dydd y gorphwysi." Ex. xxxiv. 21. Nid yw hyn yn cau allan weithredoedd o dosturi, Luc xiv. 3; ond y mae masnachu a dilyn arferion a gorchwylion bydol ar ddydd yr Arglwydd, yn ymddygiad tra phechadurus, ac yn hollol anghydweddol âg yspryd ac amcan goruchel y dydd. Yr oedd hyn, dybygid, yn arferiad gan rai yn amser Nehemïah, sef, sengi gwinwryfau ar y Sabboth, a dwyn i mewn ysgubau yd; a llwytho asynod â gwin, a grawnwin, a ffigys, a phob beichiau; ond byddai Nehemïah yn ymliw â hwynt o herwydd y cyfryw ymddygiadau, ac yn "tystiolaethu yn eu herbyn," Neh. xiii. 15, 22. 2. Trwy esgeuluso moddion gras. Y mae hyn yn drosedd pendant o orchymyn Duw; "Bydd hefyd o newydd-loer i newydd-loer, ac o Sabboth i Sabboth, i bob cnawd ddyfod i addoli ger fy mron i, medd yr Arglwydd," Es. lxvi. 23; ac wedi ymddangos yn gyhoeddus yn ei dŷ, y mae myned trwy ein cyflawniadau crefyddol mewn dull ysgafn a chnawdol, fel pe b'ai y Sabboth a'i wasanaeth yn faich arnom, (Mal. i. 13,) yn ymddygiad annheilwng iawn o ddydd ac addoliad Duw.

3. Y mae dilyn arferion llygredig ac annuwiol yn halogiad ysgeler ar ddydd yr Arglwydd. Y mae y cyfryw arferion yn wrthun bob amser, ond pa faint mwy felly ar ddiwrnod fel hwn; a dylem ninau osod ein gwynebau yn erbyn y cyfryw bethau: campau a chwareuon llygredig,—diotta, cyfeddach, a meddwdod,—a phob rhwysg, a rhysedd, a difyrwch cnawdol a phechadurus.

IV. UNDEB A CHRIST A CHYFIAWNHAD.

Yr undeb rhwng y saint â Christ ydyw un o'r gwirioneddau mwyaf gogoneddus a berthyn i drefn yr efengyl. Y mae wedi cael ei gydnabod felly erioed. Byddai rhai o'r hen Dadau Cristionogol, y mae'n wir, yn cael eu gollwng i fyned yn rhy bell, weithiau, wrth siarad am dano, fel pe b'ai yn undeb â *natur* Ddwyfol y Gwaredwr. Ond y mae hyn yn anmhosibl: nis gall unrhyw greadur, pa mor uchel bynag, byth gael ei uno â *sylwedd* neu hanfod un o'r Personau Dwyfol. Rhaid bod yn ofalus i ochelyd eithafion fel hyn.

Eraill a wnant yr undeb rhwng y saint â Christ yn llai nag ydyw, gan ei olygu yn ddim mwy nac undeb o gyd-ymdeimlad—undeb meddwl, serch, ewyllys. Y mae yn wir ei fod yn cynnwys hyn i gyd; ond y mae ei gyfyngu i'r cyfryw, fel pe na byddai ond rhyw beth tebyg i'r undeb oedd rhwng Dafydd â Jonathan, 1 Sam. xviii. 1, neu athraw â'i ddisgyblion, neu gadfridog â'i filwyr, yn rhoi golwg wan ac anmherffaith ar yr undeb goruchel rhwng Crist â'i bobl, ac yn syrthio yn fyr o'i osod allan yn ei agweddau uwchaf a mwyaf dyrchafedig. Y mae'r undeb sydd rhwng Crist â'r saint yn rhagori ar yr undeb sydd rhwng y saint â'u gilydd. Fe ddywedir fod y saint "yn gyttûn," y maent "yn

meddwl ac yn synied yr un peth," ac "wedi eu cyd-gyssylltu mewn cariad," 1 Cor. i. 10: Col. ii. 2: Phil. ii. 2: ond nid felly y llefara yr Ysgrythyr am yr undeb rhwng y saint â Christ. Y mae'n wir fod yma "ddirgelwch," ac y mae'n weddus i ni fod yn ostyngedig uwch ei ben; ac eto y mae yn iawn i ni geisio deall beth a ddywed y Dadguddiad Dwyfol ar fater fel hwn.

Dengys y Testament Newydd fod y saint "yn Nghrist;" ac ynddo hefyd yn yr ystyr uwchaf y mae yn bosibl iddynt, —ynddo fel y mae y canghenau yn y winwydden, a'r aelodau yn y corph, Ioan xv. 7. 1 Cor. xii. 27. Y mae'n rhaid fod geiriau fel hyn yn golygu undeb neu berthynas o'r fath agosaf,—undeb mor agos, yn wir, fel nas gellir edrych arno yn ddim llai nac yn undeb â Pherson yr Arglwydd Iesu. Mewn gair, dyma ydyw'r undeb sydd rhwng y saint â Christ, ydyw eu hundeb â Pherson Cyfryngol Mab Duw. O Grist y maent, fel saint, yn cael eu bôd: "eithr yr ydych chwi o hono Ef," 1 Cor. i. 30; y maent yn "aelodau o'i gorph Ef, o'i gnawd Ef, ac o'i esgyrn Ef," ac wedi eu cymeryd o hono Ef, fel y cymerwyd Efa o Adda, Eph. v. 30; ac y maent wedi eu "hethol ynddo Ef er cyn seiliad y byd," Eph. i. 4.

Dyma sylfaen eu dedwyddwch. Y mae Crist, yn holl fendithion ei gyfryngdod, ac yn holl addewidion ei air, yn eiddo iddynt; ac y mae Crist ei Hun yn eiddo iddynt: "fy anwylyd sydd eiddof fi," Can. ii. 16. Y mae ei haeddiant yn eiddo iddynt er eu cyfiawnhad,—ei Yspryd a'i air yn eiddo iddynt er eu sancteiddio,—a'i gyfamod yn eiddo iddynt er eu hamddiffyn a'u dyddanu. Nid ydynt yn ddi-

bechod yn y byd hwn, y mae'n wir; na, y mae llygredd yn aros yn y goreu o honynt: ac am eu camweddau a'u colliadau y mae yn rhaid iddynt ddysgwyl ceryddon eu Tad Nefol. Ond er i'r Arglwydd "ymweled â'u camwedd â gwïalen, ac â'u hanwiredd â ffrewyllau," eto "ni thorra ei gyfamod â hwynt, ac ni thry ei drugaredd oddiwrthynt," Salm lxxxix. 30, 31, 33, 34; ac fe'u gwelir yn y man "yn ddifai ger bron gorseddfainc Duw." Ni chyll Crist ei aelodau: ni ddwg neb hwynt allan o'i law Ef. Tra yr ydoedd gyda ei ddisgyblion ar y ddaear, fe'u cadwodd hwynt gydag Ef hyd y diwedd, "ac ni chollodd o honynt ond Mab y golledigaeth," Ioan xvii. 12; ac os darfu iddo lwyddo i'w cadw pan ar y ddaear yn sefyllfa ei ddarostyngiad, pa faint mwy y gwna Efe hyn yn sefyllfa ei ddyrchafiad.

Y mae undeb y pechadur â Christ yn beth goruwchnaturiol o ran ei natur a'i ddeilliad. Rhwymyn yr undeb o du y dyn ydyw ffydd, ond rhwymyn yr undeb o du Crist ydyw yr Ysbryd: "Canys ei waith Ef ydym ni, wedi ein creu yn Nghrist Iesu i weithredoedd da." Y mae yn beth mor fawr fel y mae yn rhaid cael Creawdwr at y gwaith. Y mae y cyfnewidiad yn cael ei alw yn "greadigaeth," a lle y mae creadigaeth y mae yn rhaid fod Creawdwr. Ni ddichon neb effeithio y cyfnewidiad hwn ond yr Ysbryd Glân. Efe a gymerodd natur ddynol y Gwaredwr, gan ei huno â'i Berson Dwyfol; ac Efe hefyd sydd yn cymeryd pechadur tlawd, ac yn ei wneyd yn "greadur newydd yn Nghrist Iesu." Ond er ei fod, fel hyn, yn undeb goruwchnaturiol o ran ei natur, eto y mae yn beth sydd yn cael ei

ddwyn yn mlaen trwy foddion a ordeiniodd Duw, sef y gair, a phregethu yr efengyl, &c. Y mae Yspryd Duw wedi rhwymo ei Hun wrth ymarferiad ffyddlon a gonest âg ymarferiadau yr efengyl, ac yn addaw bendithio y cyfryw ymarferiadau i'r enaid crediniol. Y mae'r efengyl yn llaw yr Yspryd, nid mewn gair yn unig, ond mewn nerth a chyda sicrwydd mawr. Y mae lleferydd Crist yn yr ordinhadau "yn yspryd ac yn fywyd," Ioan vi. 63.

Y mae yn werth sylwi ar yr amrywiol gydmariaethau a ddefnyddia y Gwirionedd i ddangos yr undeb rhyfedd hwn. Fe'i cyffelybir ef i undeb gwr a gwraig, neu yr undeb priodasol, am ei fod yn undeb gwirfoddol: "O'i wir ewyllys yr ynnillodd Efe nyni;" ac yn undeb sydd yn golygu serch a chydymdeimlad mawr; ond yn benaf, fe allai, am ei fod yn undeb sydd yn dodi hawl iddynt yn eu gilydd, ac yn holl eiddo a meddiannau eu gilydd; felly y llefara yr eglwys am Grist,—"Fy anwylyd sydd eiddof Fi, a minau sydd eiddo yntau," Can. ii. 16. Fe'i cydmerir hefyd i undeb y pren a'r canghenau, i ddangos fel y mae'r eglwys yn derbyn ei bywyd o Grist, ac hefyd fel y mae yn dibynu ar Grist am ei chynnydd a'i ffrwythlondeb, Ioan xv. 4—7. Dyna undeb arall hefyd, sef undeb pen ac aelodau; felly y mae Crist yn "ben corph yr eglwys,"—yn ben llywodraeth a dylanwad iddi. Yr hyn yw y pen i'r corph ydyw Crist i'r eglwys: Efe sydd yn ei rheoli,—ei chyfarwyddo,—ei harwain,—a'i dysgu yn mhob peth: "Yr hwn a wnaethpwyd i ni gan Dduw yn ddoethineb, ac yn gyfiawnder, ac yn sancteiddrwydd, ac yn brynedigaeth," 1 Cor. i. 30. Undeb sylfaen

ac adeilad hefyd, neu undeb o gyd-gyssylltiad a chyd-ddibyniad. Fel y mae y sylfaen yn cynnal yr adeilad, a'r adeilad yn gorwedd ar y sylfaen, felly y mae Crist yn cynnal ei eglwys, a hithau wedi ei goruwch-adeiladu arno: "Canys sylfaen arall nis gall neb ei osod, heb law yr un a osodwyd, yr hwn yw Iesu Grist," 1 Cor. iii. 11.

Y mae holl ddoniau achubol yr efengyl yn preswylio yn Nghrist fel Pen yr eglwys; y mae yn rhaid, gan hyny, fod mewn undeb â Christ cyn y gallwn dderbyn o'i drysorau. "Rhyngodd bodd i'r Tad drigo o bob cyflawnder ynddo Ef," Col. i. 19: ynddo Ef "y mae holl drysorau doethineb a gwybodaeth yn guddiedig; ynddo Ef y mae holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio yn gorphorol," Col. ii. 3, 9; rhaid i ninau, gan hyny, fod mewn undeb â Christ cyn y gallwn ddyfod i feddiant o'r bendithion hyny y mae Efe, fel Cyfryngwr, yn eu cyfranu: "Yn yr Hwn y mae i ni bryn-edigaeth trwy ei waed Ef, sef maddeuant pechodau, yn ol cyfoeth ei ras Ef," Eph. i. 7.

Nid oes modd gweithredu yn sanctaidd, ychwaith, ond mewn undeb â Christ. Crist ydyw ffynhonell y bywyd ysprydol yn ei holl ranau; Efe yw y gwreiddyn o ba un y tyfa yr holl rasusau Cristionogol—"O honof fi y ceir dy ffrwyth di," Hos. xiv. 8. Gall llawer o bethau fod heb hyn, ond dim ffrwyth: "Megys na all y gangen ddwyn ffrwyth o honi ei hun, onid erys yn y winwydden; felly ni ellwch chwithau, onid arhoswch ynof fi," Ioan xv. 4. Y mae dyn wrth natur dan ddigofaint; ac nis gall yr un gras cadwedigol neu weithred sanctaidd fod ynddo yn ei undeb â'r Adda

cyntaf; rhaid ei symud i Grist cyn y gall weithredu yn sanctaidd. Yn Nghrist y mae'r holl addewidion a phob gras yn drysoredig: "I Abraham y gwnaethpwyd yr addewidion, ac i'w had ef. Nid yw yn dywedyd, Ac i'w hadau, megis am lawer; ond megis am un, Ac i'th had di, yr hwn yw Crist," Galat. iii. 16: y mae holl addewidion Duw ynddo Ef yn "ïe ac yn amen." Rhaid felly i ddyn fod yn Nghrist yn y cyfiawnhad cyn y gall ffrwyth dori allan: y mae yn rhaid i'r gangen fod mewn undeb â'r pren cyn y gall ddwyn ffrwyth.

Y mae breintiau gogoneddus yn perthyn i'r saint yn eu hundeb â Christ. Y maent yn "feibion i Dduw," y rhai a gredant yn ei enw Ef; wedi eu geni, nid o waed, nac o ewyllys y cnawd, nac o ewyllys gwr, eithr o Dduw," Ioan i. 12, 13. Nid oes "dim damnedigaeth" ychwaith i'r rhai sydd yn Nghrist Iesu. Y mae'r gwaethaf drosodd arnynt am byth—ni ddont i farn. Gallant ddyfod i dlodi, a chystudd, a phoen, a thrallod; ond ni ddeuant byth i *farn*. Ni ddemnir hwynt: ni chyfrgollir hwynt byth, canys eu "bywyd a guddiwyd gyda Christ yn Nuw," Col. iii. 3. "Y mae pob peth yn eiddo iddynt: pa un bynag ai y byd, ai bywyd, ai angau, ai pethau presennol, ai pethau i ddyfod; y mae pob peth yn eiddo iddynt," 1 Cor. iii. 21—23; ac y maent hwythau "yn gallu pob peth trwy Grist yr hwn sydd yn eu nerthu." Y maent yn etifeddion i Dduw, ac yn gyd-etifeddion â Christ," Galat. iii. 28; y maent, yn wir, i gael cwr o'i orsedd, ac i deyrnasu gydag Ef mewn bywyd ac anrhydedd byth. Y mae eu llwch yn ddiogel yn y bedd;

a phan ymddangoso Crist eu bywyd, yna hefyd yr ymddangosant hwythau gydag Ef mewn gogoniant, Col. iii. 4. Fe'u hadgyfodir "yn y dydd diweddaf," a hyny gyda nerth a gogoniant mawr: "y rhai a hunasant yn yr Iesu, a ddwg Duw hefyd gydag Ef," 1 Thess. iv. 14; y mae iddynt hwy ran yn "yr adgyfodiad cyntaf," Dat. xx. 6; ac fe wneir eu cyrph gwael "yr un ffurf a'i gorph gogoneddus Ef." O! deulu gwynfydedig!

Gelwir yr undeb rhwng y saint â Christ, weithiau, yn undeb cyfamodol. Gwnaed hwn rhwng Crist a'i bobl yn nhragwyddoldeb, pan y neillduwyd Ef fel eu Pen a'u Meichnïydd. Undeb ydyw hwn yn wyneb cyfraith,—undeb o feichnïaeth a chynnrychioliad yn wyneb deddf a chyfiawnder Duw,—yn yr hwn yr oedd Crist fel eu Meichnïydd yn cymeryd eu lle a'u hachos hwy, ac yn ymrwymo i fod yn attebol drostynt. Y mae peth tebyg i hyn yn cael ei wneyd yn fynych yn mysg dynion, a gall fod yn fuddiol i ddangos y mater dan ein sylw yn bresennol. Gŵyr pawb am y berthynas sydd rhwng meichiau â dyledwr. Pan y mae dyledwr yn llwyddo i gael meichiau, a hwnw yn ymrwymo i'w gynnrychioli, a myned yn gyfrifol drosto i'r gofynwr, y mae'r gyfraith yn edrych arnynt yn hyn yn un—fe edrychir ar daliad y meichiau fel taliad y dyledwr, ac y mae yntau yn myned yn rhydd oddiwrth ei ofynwr. Y mae hyn, fel y sylwa y Parch. Dr. John Dick, yn ei *Ddarlithiau ar Dduwinyddiaeth*,* yn ddangosiad teg o'r undeb sydd rhwng y saint

* *Lectures on Theology, vol. iii., p.* 295.

â Christ—undeb o gynnrychioliad, yn yr hwn yr oedd Crist, yn y tragwyddoldeb boreu, yn ymrwymo, nid yn unig i gymeryd eu natur, ond i fyned i'w deddfle, a bod yn attebol drostynt i gyfiawnder Duw. Ac yn awr, ar sail eu hundeb personol hwy â'r Meichiau Mawr, ac yn wyneb y boddlonrwydd a roddai yntau i'r gyfraith ar eu rhan, yr oeddynt hwy i fyned yn rhyddion, a'u personau euog i gael eu cyfiawnhau, a'u derbyn i ffafr a heddwch Duw.

Yn ei berthynas â dyn, y mae cyfiawnhad yn weithred farnol, a weinyddir ar ei *berson* fel y mae yn euog ger bron Duw, ac felly yn sefyll ar gyfer condemniad; ond yn ei berthynas â Duw, y mae yn weithred o ben-arglwyddiaethol gariad a gras: "A hwy wedi eu cyfiawnhau yn rhad trwy ei ras Ef," Rhuf. iii. 24. Yr *hyn* sydd yn cyfiawnhau, yw cyfiawnder Crist yn unig, yr hwn a gyfrifir yn eiddo i'r pechadur yn ei undeb ef â Christ trwy ffydd. Y mae y cyfrifiad o gyfiawnder Crist i'w had ysprydol, yn sefyll yn wrthgyferbyniol i'r cyfrifiad o bechod Adda i'w had naturiol. Y mae rhai yn gwadu y cyfrifiad o bechod Adda; ond y mae hyn yn ammhosibl, heb ar yr un pryd wadu y cyfrifiad o gyfiawnder Crist. Yn Rhuf. iii. 12—21, y mae yr Apostol yn gosod y ddau gyfrifiad ar gyfer eu gilydd, ac yn edrych arnynt yn ngoleu eu gilydd; ac eto, tra y mae, ar un llaw yn dangos y cyfatebolrwydd sydd rhyngddynt, y mae, ar y llaw arall, yn dangos hefyd fod y cyfrifiad o gyfiawnder Crist yn rhagori llawer ar y cyfrifiad o bechod Adda: "lle yr amlhaodd pechod, y rhagor amlhaodd gras."

Y mae o bwys i ni ddeall ein perthynas naturiol a chyf-

amodol âg Adda: ac megis mai ein hundeb ni âg ef yw sail ein condemniad ni wrth natur, felly ein hundeb ni â Christ yw sail ein cyfiawnhad ni yn ngwyneb yr efengyl. Yn ei berthynas âg Adda, yr aeth dyn i lawr i ddechreu, ac yn ei berthynas â'r Ail Adda, y mae modd ei adferu eto: "Oblegyd megis yn Adda y mae pawb yn meirw, felly hefyd yng Nghrist y bywhëir pawb:" 1 Cor. xv. 22.*

* Er mai UN yn hanfodol yw yr undeb rhwng y saint â Christ; eto, wrth geisio ei egluro, a chael mesur o ddirnadaeth o hono, y mae yn fantais i ni edrych arno o ddau safle, ac felly ei ystyried yn ddeublyg. Y mae yma undeb cyfamodol: ac y mae yma hefyd, fel yr awgryma Mr. W. yn y sylwadau uchod, undeb gweithredol. Nid rhyw beth o du y Personau Dwyfol yn unig yw yr undeb rhwng Crist â'i bobl; nid rhyw drefniad neu gynlluniad yn ngwyneb çyfraith, tu allan iddynt hwy eu hunain, ac yn annibynol ar unrhyw weithrediad o'u heiddynt hwy. Y mae yn cynnwys hyn, y mae'n wir; a dyma ydyw mewn ystyr gyfamodol. Ond pe hyn a fuasai i gyd, ni buasai yn undeb rhesymol a chyflawn: peth hanerog a hollol *arbitrary* a fuasai, heb fod gan y saint eu hunain ddim i ddweyd wrtho. Y mae perthynas y saint â Christ yn gyd-berthynas, ac yn undeb rhyngddynt *â'u gilydd;* a thuag at hyn, y mae rhyw weithrediad yn angenrheidiol o'u tu hwythau. Fan yma y mae'r undeb gweithredol yn dyfod i mewn, er fod dwy ochr i hwn eto—gwaith yr Ysbryd o du Crist, a gwaith ffydd o du y pechadur. Yr undeb gweithredol hwn yw perffeithiad a chyflawniad yr undeb cyfamodol, ac ar sail yr undeb hwnw y dygir y saint i feddiant gweithredol o holl ddoniau y prynedigaeth; canys er fod Crist yn cynnrychioli ei bobl er tragwyddoldeb, eto y mae rhyw beth yn angenrheidiol o'u tu hwythau cyn y gallant ddyfod i feddiant o fendithion ei gynnrychiolaeth. Dadleua rhai mai ar sail eu hundeb cyfamodol y dygir y saint i feddiant o ddoniau yr iachawdwriaeth. Dyma, yn ol yr Antinomiaid, yw sail cyfiawnhad; ond gan fod yr undeb hwn er tragwyddoldeb, rhaid fod y saint wedi eu cyfiawnhau

Yn rhinwedd yr undeb hwn â Christ y mae yspryd a bywyd newydd yn cael ei gynnyrchu yn yr enaid; ac nid yw y gwahanol rasusau, megis edifeirwch, ffydd, cariad, &c., ond gwahanol ddadblygion y bywyd newydd hwn sydd yn

---

er tragwyddoldeb, yr hyn sydd dybiaeth wrthun ac afresymol. Beth bynag a ellir ei ddweyd am feddwl a bwriad Duw mewn ystyr arfaethol, y mae yn sicr fod tragwyddol fwriad y Meddwl Dwyfol *tuag at* y saint yn beth pur wahanol i gyflawniad gweithredol y bwriad hwnw mewn amser *arnynt.* Ni fuasai bwriad Duw i gyfiawnhau *yn* cyfiawnhau neb mewn unrhyw ystyr. Y mae yn wir fod hyny yn sicrhau cyfiawnhad llaweroedd: ond pe buasai Duw heb wneyd rhyw beth heblaw bwriadu, ni chyfiawnheid un cnawd yn ei olwg Ef. Nid ydyw dyn ddim *yn* gyfiawn nes y bydd y weithred o gyfiawnhad yn cael ei gweinyddu ar ei berson, ac yntau yn derbyn Crist trwy ffydd.

Y mae'r undeb gweithredol felly i'w olygu mewn dwy ystyr,—yn wrthddrychol ac yn dufewnol: y naill fel sail ein cyfiawnhad, a'r llall fel ffynnonell ein sancteiddhad.* Dangosir hyn yn amlwg yn y xv. bennod yn Efengyl Ioan, yn nghymhariaeth y winwydden a'r canghenau. Dengys Crist yma fod yr undeb rhwng y gangen a'r winwydden yn ddeublyg—undeb y gangen â'r winwydden, ac undeb y winwydden â'r gangen. Undeb y gangen â'r winwydden yw cyfiawnhad, undeb y winwydden â'r gangen yw sanct-

---

* Y mae'n wir, y dywedir fod pechadur yn cael ei gyfiawnhau trwy "gyfrifiad neu gyfranogiad o gyfiawnder Crist," yn unol â Rhuf. v. 18, &c. Ond paham y cyfrifir cyfiawnder Crist iddo? Rhaid fod rhyw reswm dros y cyfrifiad: nis gall Duw gyfrif cyfiawnder ei Fab heb y rheswm uwchaf, canys nid peth ydyw yn seiliedig ar *fiat* noeth ei ewyllys. Y rheswm, dybygid, paham y mae Duw yn cyfrif cyfiawnder Crist i'r pechadur yw, am ei fod yn dyfod yn eiddo iddo yn ei *undeb personol* â Christ, a dyma reswm gwreiddiol ac achos haeddianol cyfiawnhad, yn unol â 2 Cor. v. 21.

cael ei roddi yn yr enaid yn y cyfiawnhad. Dyma wreiddyn gwir grefydd. Y mae dull trosglwyddiad y bywyd hwn i feddwl y pechadur, yn ddirgelwch nas gallwn ni ei amgyffred. Dywed rhai ei fod yn bod yn flaenorol yn mherson

---

eiddhad, a'u cyfluniad yw cyflawniad a pherffeithiad y bywyd. Trwy fod y gangen yn un â'r winwydden, y mae hi yn derbyn o'i nodd a'i rhinwedd; ac ar y llaw arall, trwy fod y winwydden yn un â'r gangen, y mae'r nodd hwnw yn myned yn egwyddor o fywyd a ffrwythlondeb ynddi hithau. Dyma, felly, undeb cyflwr ac undeb anian.

Wrth derfynu, gellir sylwi fel y mae cymhariaeth y winwydden yn brawf o'r unoliaeth athrawiaethol sydd rhwng yr Efengylau a'r Epistolau. Meddylid yn hir mai ychydig o Athrawiaeth oedd yn yr Efengylau—mai yn yr Epistolau yr oedd y pynciau mawr i'w cael. Dyma un rheswm paham y telid cyn lleied o sylw, hyd yn ddiweddar, i'r Efengylau, a bod cyn lleied o esponio arnynt hwy ragor yr Epistolau. Camsyniad mawr: ac yn awr y mae'r Eglwys yn dechreu dyfod allan o hono. Y mae holl athrawiaethau mawr y Grefydd Gristionogol i'w cael yn yr Efengylau; a hyny yn eu hagweddau uwchaf, puraf: a dyma, fe allai, y rheswm pa ham nad ydynt mor hawdd i'w canfod. Y mae yn ddigon hawdd eu gweled yn yr Epistolau. Y mae'r Apostol Paul yn eu hymresymu hwynt allan, ac yn eu *moldio* yn wahanol ddulliau a ffurfiau o flaen ein llygaid. Ond ychydig a fyddai Iesu Grist yn ei *ymresymu* ar bethau: taflu drychfeddyliau wrth fyned heibio y byddai Efe, a gadael i'w ddysgyblion eu gweithio allan. Fel y mae rhai naturiaethwyr, wedi dyfod o hyd i asgwrn cefn creadur, yn gallu gwneyd allan y cymalau eraill eu hunain, a'u rhoi wrth eu gilydd yn un corph lluniaidd—felly yr apostolion, wedi cael drychfeddwl gwreiddiol yr athrawiaeth, nid oedd ganddynt hwy bellach ond trefnu y mân gymalau, a rhoi y corph wrth eu gilydd.

Ni a ddymunem, fel hyn, argraffu ar feddyliau athrawon yr Ysgol Sabbothol mai Cnewyllyn dysgeidiaeth y Testament Newydd yw yr Efengylau. O Iesu Grist y cafodd yr apostolion sylwedd eu holl ddysgeidiaeth. Dyna ddarfu'r apos-

Crist fel Cyfryngwr, cyn ei roi yn weithredol yn yr enaid gan yr Yspryd Glân. Ond ni pherthyn i ni "wybod ffordd yr Yspryd." Digon i ni yw gwybod fod yr hwn y mae y bywyd hwn ynddo, yn "ddyn newydd," wedi "ei greu yng Nghrist Iesu i weithredoedd da."

---

tolion—agor, dadblygu, egluro, cymhwyso, gweithio allan yr hyn, yn egwyddorol, oedd yn yr Efengylau o'r blaen: a dyma hefyd ydyw eu Hepistolau—Esponiad ar yr Efengylau, Esponiad Athrawiaethol ac Ymarferol ar ddrychfeddyliau mawr yr Arglwydd Iesu. A phwy yn fwy cymhwys i wneyd hyn ond y rhai oeddynt wedi bod gyda'r Athraw, ac wedi derbyn eu haddysg o'i enau Ef ei Hun; ac felly yn gwybod mwy na neb arall am ei feddwl a'i gyfrinach.—Gol.

Amrywion.

AMRYWION.

I. CASGLIAD O ADNODAU AR GREFYDD DEULUAIDD.*

"Duw a greodd y dyn ar ei ddelw ei hun, ar ddelw Duw y creodd efe ef: yn wrryw ac yn fanyw y creodd efe hwynt. —Hefyd yr Arglwydd Dduw a ddywedodd, Nid da bod y dyn ei hunan; gwnaf iddo ymgeledd cymmwys iddo...Ac

* Gwnaed y "Casgliad" hwn gan Mr. W. yn un o flynyddoedd olaf ei fywyd, a hyny yn wyneb gwendid a llesgedd mawr. Fe wêl y darllenydd ei fod yn ddetholiad doeth a chryno, wedi ei ranu yn benau at wasanaeth yr Ysgol Sabbothol. Neu, gellid ei ddefnyddio gyda llawer o fuddioldeb yn ein Cyfarfodydd Eglwysig, fel cynnorthwy i alw sylw proffeswyr at eu gwahanol ddyledswyddau fel rhieni, plant, meistriaid, gweision, &c. Gan fod yr Apostolion yn cymhell y pethau hyn i sylw yr eglwysi yn eu dyddiau hwy, ai nid priodol fyddai i ninnau, yn ein cynnulliadau eglwysig, gymeryd yr un cyfeiriad—o leiaf, yn achlysurol, a galw ystyriaethau ein gilydd at rwymedigaethau mwyaf ymarferol y broffes Gristionogol, ac yn enwedig dyledswyddau crefydd deuluaidd.—Gol.

Adda a ddywedodd, Hon weithian sydd asgwrn o'm hesgyrn i, a chnawd o'm cnawd i: hon a elwir gwraig, oblegid o wr y cymmerwyd hi."—Gen. i. 27; ii. 18, 23; Heb. xiii. 4.

I. DYLEDSWYDDAU GWYR TUAG AT EU GWRAGEDD.

"Ymlawenhâ gyda gwraig dy ieuengctid...ac ymfoddlona yn ei chariad hi yn wastadol."—Diar. v, 18, 19.

"Dwg dy fyd yn llawen gyda'th wraig anwyl holl ddyddiau bywyd dy oferedd: canys dyna dy ran di yn y bywyd yma, ac yn dy lafur a gymeri dan yr haul."—Preg. ix. 9.

"Y gwyr cerwch eich gwragedd, megis ag y carodd Crist yr eglwys, ac a'i rhoddes ei hun drosti."—Eph. v. 9.

"Felly y dylai y gwyr garu eu gwragedd, megis eu cyrph eu hunain. Yr hwn a garo ei wraig, sydd yn ei garu ei hun."—Eph. v. 28.

"Y gwŷr, cerwch eich gwragedd, ac na fyddwch chwerwon wrthynt."—Col. iii. 10.

"Y gwŷr, yr un ffunud, cyd-gyfaneddwch â hwynt yn ol gwybodaeth, gan roddi parch i'r wraig megis i'r llestr gwanaf, fel rhai sydd gyd-etifeddion gras y bywyd; rhag rhwystro eich gweddiau."—1 Pedr iii. 7.

II. DYLEDSWYDDAU Y GWRAGEDD AT EU GWYR.

"Y gwragedd, ymostyngwch i'ch gwŷr priod, megis i'r Arglwydd."—Eph. v. 22.

"Y gwragedd, ymostyngwch i'ch gwŷr priod, megis y mae yn weddus yn yr Arglwydd."—Col. iii. 18.

"Yr un ffunud, bydded y gwragedd ostyngedig i'w gwŷr priod; fel, od oes rhai heb gredu i'r gair, y galler trwy ymarweddiad y gwragedd, eu hennill hwy heb y gair."—1 Pedr iii. 1. Gwel hefyd Diar. ix. 16; xiv. 1; xviii. 22; a xix. 14.

III. DYLEDSWYDDAU RHIENI TUAG AT EU PLANT.

1. *Eu hyfforddi.* "Canys mi a'i hadwaen ef, [Abraham] y gorchymyn efe i'w blant, ac i'w dylwyth ar ei ol, gadw o honynt ffordd yr Arglwydd, gan wneuthur cyfiawnder a barn."—Gen. xviii. 19. "A hysbysa hwynt [y deddfau] i'th blant; a chrybwyll am danynt pan eisteddych yn dy dŷ, a phan gerddych ar y ffordd, a phan orweddych i lawr, a phan gyfodych i fynu. A rhwym hwynt yn arwydd ar dy law; byddant yn rhagdalau rhwng dy lygaid. Ysgrifena hwynt hefyd ar byst dy dŷ, ac ar dy byrth."—Deut. vi. 7—9. "A chwithau dadau, na yrwch eich plant i ddigio; ond maethwch hwynt yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd." —Eph. vi. 4. "Hyfforddia blentyn yn mhen ei ffordd; a phan heneiddio nid ymedy â hi."—Diar. xxii. 6.

2. *Eu coffâu am weithredoedd Duw.* "A mynega i'th fab y dydd hwnnw, gan ddywedyd, O herwydd yr hyn a wnaeth yr Arglwydd i mi pan ddaethum allan o'r Aipht, y gwneir hyn."—Exod. xiii. 8. Gwel hefyd xii. 26; Deut. iv. 9; Ps. xliv. 1; lxi. 18; lxviii. 5; a Joel i. 3.

3. *Eu ceryddu.* "Cerydda dy fab tra fyddo gobaith; ac nac arbeded dy enaid ef, i'w ddifetha."—Diar. xix. 18. Gwel hefyd xxiii. 13, 14; a xxix. 15, 17. Eli yn ddiffygiol yn hyn—1 Sam. ii. 23, 24.

4. *Gweddïo drostynt.* "Dafydd...a ymbiliodd â Duw dros y bachgen."—2 Sam. xii. 16. Gwel hefyd Gen. xvii. 18; a Job i. 5.

5. *Gofal am eu priodi.* "Nac ymgyfathracha chwaith â hwynt: na ddod dy ferch i'w fab ef, ac na chymmer ei ferch ef i'th fab dithau."—Deut. vii. 3; Gen. xxiv. 2, 3, &c.; xxvii. 46; xxviii. 1, 6; Josua xxiii. 12, 13; a Barn. iii. 5, 6, 7.

6. *Gofal am eu bywioliaeth.* "Ac Abraham a roddodd yr hyn oll oedd ganddo i Isaac."—Gen. xxv. 5. Gwel hefyd Diar. xiii. 22; 2 Cor. xii. 14; a 1 Tim. v. 8.

7. *Rhieni duwiol yn cael eu bendithio yn eu had.* Deut. xii. 28; Ps. xxxvii. 26; Esay xliv. 3; a lxi. 9.

IV. DYLEDSWYDDAU PLANT AT EU RHIENI.

"Anrhydedda dy dad a'th fam; fel yr estyner dy ddyddiau ar y ddaear."—Exod. xx. 12.

"Ofnwch bob un ei fam, a'i dad."—Lef xix. 3.

"Yr hwn a felldithio dad neu fam, lladder ef yn farw."—Mat. xv. 4.

"Fy mab, gwrando addysg dy dad, ac nac ymadaw â chyfraith dy fam."—Diar. i. 8; vi. 20; xiii. 1; Col. iii. 20.

Esiamplau o blant yn anrhydeddu eu rhieni—Sem a Japheth—Gen. ix. 23, 26, 27. Joseph—xlv. 9—11; 50. 7, 10. Y Rechabiaid—Jer. xxxv. 2, 9, 18, 19.

V. DYLEDSWYDDAU MEISTRIAID AT EU GWEISION.

"Na orthryma was cyflog.. Yn ei ddydd y rhoddi iddo ei gyflog."—Deut. xxiv. 14, 15.

"Na feistrola arno ef yn galed."—Lef. xxv. 43.

"Y meistriaid, gwnewch i'ch gweision yr hyn sydd gyfiawn ac uniawn; gan wybod fod i chwithau Feistr yn y nefoedd."—Col. iv. 1.

Esiampl o ofal Meistr am ei Was. Y canwriad—Mat. viii. 6.

VI. DYLEDSWYDDAU GWEISION AT EU MEISTRIAID.

"Y neb a wasanaetho ei feistr, a ddaw i anrhydedd."—Diar. xxvii. 18.

"Ai yn was y'th alwyd? na fydded waeth gennyt; etto os gelli gael bod yn rhydd, mwynhâ hynny yn hytrach."—1 Cor. vii. 21.

"Y gweision, ufuddhêwch i'r rhai sydd arglwyddi i chwi yn ol y cnawd, gydag ofn a dychryn, yn symlrwydd eich calon, megis i Grist; nid â golwg-wasanaeth, fel boddlonwyr dynion, ond fel gweision Crist, yn gwneuthur ewyllys Duw o'r galon."—Eph. vi. 5, 6. Gwel hefyd Col. iii. 22—24; 1 Tim. vi. 1, 2; Tit. ii. 9; 1 Pedr ii. 18—20.

II. NODIADAU CYMANFAOL.

(1.) AM GREFYDD YR EFENGYL.

(*Cymanfa Dinbych*, 1820.)

Y MAE crefydd yr efengyl i'w hystyried yn athrawiaethol, yn brofiadol, ac yn ymarferol. Gwneir, weithiau, gamddarluniad o athrawiaeth gras. Dywed rhai, gan mai trwy ffydd yn Nghrist yn unig y mae i bechadur gael ei fywyd, nad yw wiw cadw y ddeddf. Ond y mae cadw y ddeddf o'r pwys mwyaf; ac nid oes neb yn gallu gwneyd hyn ond y dyn sydd yn byw trwy ffydd: ein grym ni i gadw y ddeddf ydyw ein hundeb ni â Christ.—Rheol dyn i fyw yn dduwiol ydyw y deg gorchymyn. Y mae rhwymedigaeth arno, fel creadur, i fyw yn dduwiol; ond ni fedr wneyd hyny heb gredu yn Nghrist.

Gellir edrych ar grefydd ymarferol mewn pedwar golygiad.—1. Ein dyledswydd tuag at ein llywodraethwyr gwladol. Gelwir arnom i "ymddarostwng i'r awdurdodau goruchel: canys nid oes awdurdod ond oddiwrth Dduw; a'r awdurdodau y sydd, gan Dduw y maent wedi eu hordeinio," Rhuf. xiii. 1. 2. Ein dyledswydd tuag at ein cymydogion.

Bod yn dirion, yn gymwynasgar: darparu pethau onest yn ngolwg pob dyn, &c., fel na chabler enw Duw o'n plegid ni. 3. Ein dyledswydd tuag at ein teulu. Os meistr, peidio bod yn feistrolgar, ond yn fwynaidd, ac yn gwneuthur i'n gweision yr hyn sydd "gyfiawn ac uniawn;" gan wybod fod i ninnau Feistr yn y nefoedd, Col. iv. 1: neu, os gwas, ymddwyn yn deilwng o'n sefyllfa; "nid â golwg-wasanaeth, fel boddlonwyr dynion, ond fel gweision Crist, yn gwneuthur ewyllys Duw o'r galon," Eph. vi. 5, 6. 4. Ein dyledswydd tuag at eglwys Dduw. Y mae cyfrifoldeb neillduol arnom fel swyddogion eglwysig. Dylai fod gofal pob person yn yr eglwys ar feddwl pob blaenor: "Edrychwch arnoch eich hunain, ac ar yr holl braidd;" ac wrth ymddiddan â chyfeillion am eu profiadau, dylid bod yn bur dyner. Y mae rhai yn areithio gormod o lawer mewn *society;* yn y pulpud rhaid i ni areithio yn ol y dawn a gawsom, ond ni ddylid bod yn y *society* fel yn y pulpud—sylwadau byrion, call, pwysig, difrifol, a ddylai fod yn y *society*. Dylai hefyd yn y cyfarfodydd hyn fod mwy o sylw ar y pregethau, ac o ymholi pa fodd y mae y weinidogaeth yn effeithio arnom; ac weithiau, gallai fod yn fuddiol i roi rhyw faterion i'r eglwys i chwilio arnynt.

Byddwn ddyfal i "arfer duwioldeb gartref." Y mae lle i ofni fod hanner y wlad nad ydynt yn myned ar ei gliniau, hwyr a boreu; a gall fod rhai yn ymesgusodi oddiwrth glywed ambell bregethwr yn dweyd ei bod yn anaddas i ddyn annuwiol fyned ar ei liniau, a dweyd—"Ein Tad," &c,; ond y mae Duw yn Dad i bawb: "Pob perchen anadl,

molianned yr Arglwydd." Dylem fod yn ddyfal i gadw i fyny addoliad teuluaidd. Y mae ymddygiad Joshua, Daniel, &c., yn esiampl neillduol o hyn. Y mae y budd a'r lles sydd yn deilliaw i ni ein hunain yn bersonol yn dangos pa mor ddyfal y dylem fod gyda'r ddyledswydd hon. Beth sydd yn fwy naturiol nac addoli Duw yn y teulu. Fe argyhoeddwyd Pabydd yn ddiweddar yn yr Iwerddon. ac un o'r pethau cyntaf a wnaeth, wedi ei dröedigaeth, oedd codi allor i Dduw yn ei deulu, er nad ydoedd o'r blaen wedi clywed fod neb yn arfer gwneyd hyny. Ni ddylid goddef neb yn yr eglwys heb fod, o leiaf, unwaith yn y dydd, yn cadw addoliad i Dduw yn ei deulu.

(2.) CYFARWYDDIADAU I'R YSGOL SABBOTHOL.*

Yr Arolygwr.—Yr Arolygwr ydyw llywydd yr ysgol; ac fel y cyfryw, y mae arweiniad yr ysgol, yn nghyd a gweinyddiad ei rheolau a'i dysgyblaeth, yn cael eu hymddiried iddo ef; ac efe, yn benaf, sydd yn gyfrifol am ei llwyddiant a'i defnyddioldeb. Ei waith ydyw—gofalu fod yr ysgol yn cael ei dechreu yn brydlon, a hyn trwy ddarllen rhan o'r Gair, canu

* Casglwyd y Cyfarwyddiadau uchod o'r nodiadau a wnaeth Mr. W. o'r ymdriniaeth a fu ar yr Ysgol Sabbothol, mewn amrywiol Gymanfaoedd, sef tua 1830—32, wedi hyny, argraffwyd hwynt yn llyfr bychan, a chyhoeddwyd hwynt dan nawdd Cymanfa y Wyddgrug, 1836.

mawl, a gweddi—gofalu fod yr holl athrawon yn bresennol gyda eu dosparthiadau, a llenwi unrhyw fylchau yn niffyg hyny—gofalu fod y gwahanol ddosparthiadau yn lled gyfartal o ran nodwedd a chyrhaeddiadau, a bod yr athraw a'r ysgolheigion yn gyfaddas i'w gilydd—gofalu yn neillduol am blant yr ysgol, a bod rhyw ddarpariadau priodol yn cael eu trefnu ar eu cyfer—gofalu fod y Cyfarfodydd Athrawon yn cael eu cynnal yn rheolaidd, ac mewn dull a fyddo o wasanaeth i'r ysgol—gofalu fod yr ysgol, trwy ryw foddion a fernir yn oreu, yn cael ei maethu mewn gwybodaeth; a bod y ddysgeidiaeth a gyfrenir o duedd iachusol a buddiol. Dylai yr Arolygwr gael ei ddewis gan yr Athrawon o'u mysg eu hunain, a'i osod yn ei swydd trwy gydsyniad a chymeradwyaeth yr Eglwys.

Yr Athrawon.—Yr hyn ydyw yr Arolygwr i'r ysgol yn gyffredinol, ydyw yr Athraw i'w ddosbarth yn neillduol; ac ar gyfrif yr ymddiried a roddir iddo, dylai fod yn ddyn profedig, pwyllog, a deallus,—sefydlog o ran ei farn a'i olygiadau,—o ymarweddiad diargyhoedd,—o dymher serchog a charuaidd, ac o duedd a chwaeth grefyddol,—llafurus am wybodaeth ei hun, a gofalus am lwyddiant a chynnydd ei ddosbarth mewn rhinwedd a gwybodaeth.

Y mae athraw i gael ei ddewis gan y Cyfarfod Athrawon, ac y mae ei barhâd yn ei swydd i fod yn ddarostyngedig i farn a phenderfyniad y cyfarfod hwnw; ond wedi ei osod ar ddosbarth, dylai fod yn gwbl ymroddedig i waith a dyledswyddau ei swydd. Gofaled am iawn ymddygiad ac iawn lywodraethiad y dosbarth; a thuag at hyn, bydded iddo

wylio ar ei yspryd ei hun, a gochelyd y cyfryw bethau "a baro ddigter a dadl." "Na fydded wag siaradus" uwch ben Gair Duw, "gan adrodd pethau nad ydynt gymhwys;" a gocheled "ynfyd ac annysgedig gwestiynau, gan wybod eu bod yn magu ymrysonau;" canys ni ddylai athraw "ymryson, ond bod yn dirion wrth bawb, yn ddioddefgar, ac mewn addfwynder yn dysgu y rhai gwrthwynebus."

Dylai athraw fod yn "athrawus," yn blaenori mewn gwybodaeth a deall. Dylai fod yn brofedig ei hun yn y gyfran a fyddo yn cael ei ddarllen yn y dosbarth, a darparu ar gyfer gwaith ei swydd fel athraw yn ystod yr wythnos, fel y byddo ganddo ryw wybodaeth i gyfranu i'r rhai sydd o dan ei ofal, a'r wybodaeth hono o natur fuddiol ac adeiladol; a chyda eu porthi â gwybodaeth, dylai hefyd ddysgu rhinwedd iddynt, "gan eu dysgu i wadu annuwioldeb a chwantau bydol, a byw yn sobr, ac yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y byd sydd yr awrhon," Tit. ii. 12. Dylai eu hadgoffa yn dirion o'u ffaeleddau. Yn wyneb esgeulusdra neu ddiofalwch, dylai eu hannog, a'u cynghori, a'u rhybuddio yn dyner a charedig; pan yn glaf, dylai ymweled â hwynt, gan gydymdeimlo â hwynt yn eu hadfyd, a'u cynnorthwyo mewn gwendid a llesgedd; gan fod yn ymdrechgar, ffyddlon, a llafurus, ac arfer pob cydwybod dda tuag atynt yn holl gylchoedd ei swydd.

(3). AM LYWODRAETH YR EGLWYS.

(Cymanfa y Bala, 1824.)

Y MAE'R Eglwys dan lywodraeth Crist. Efe yw Pen yr Eglwys; y mae felly fel Person Dwyfol, ond y mae felly yn neillduol fel Cyfryngwr. Fel Cyfryngwr, y mae ganddo lywodraeth ar bob peth er diogelwch ac adeiladaeth yr Eglwys, ar y creaduriaid ac ar yr elfenau; "Efe sydd yn teyrnasu, gorfoledded y ddaear," Dyma paham y mae Duw yn cadw y byd mewn bod—Eglwys sydd ganddo yma; oni b'ai hyn buasai y ddaear wedi myned ar dân cyn hyn: yn nghysgod yr Eglwys y mae'r annuwiol yn cael trugareddau.

Y mae o bwys gwahaniaethu rhwng llywodraeth Crist ar y byd yn gyffredinol, a'i lywodraeth ar ei bobl: o ddiffyg ystyried hyn y mae cyfeiliornadau wedi llithro i mewn. O'u hanfodd y mae Crist yn llywodraethu ei elynion, a hyny er eu darostwng dan ei draed; ond y mae y saint yn ddeiliaid parod ac ufudd iddo, yn caru ei lywodraeth,—y maent yn cael eu gwneyd yn ewyllysgar yn nydd ei nerth; a phan gollant eu ffordd, fel plant, fe'u dygir hwynt adref yn ddiogel. Y mae perthynas agos rhyngddo Ef â'i bobl; y mae wedi ei eneinio yn Frenin ar Sïon. Y mae agoriadau "tŷ Dafydd" yn ei law Ef; Efe sydd yn agor, ac nid yw neb yn cau. Y mae yn wir ei fod yn rhoddi yr agoriadau i'w bobl ar y ddaear, fel is-lywodraethwyr, i droi allan ac i dderbyn i mewn; ond gan Grist fel Brenin y mae yr hawl ar yr

agoriadau. Y mae yn Frenin ac yn Offeiriad i'w Eglwys—"Cyfiawn ac achubydd yw efe."

Fel Brenin y darfu iddo osod ordinhadau yn ei eglwys, sef Bedydd a Swper yr Arglwydd. Fe ddywed rhai mai ordinhad i holl ddynolryw ydyw y Bedydd; ond yr ydym ni yn barnu yn wahanol. Peth eglwysig oedd yr enwaediad o dan yr hen oruchwyliaeth, ac felly Swper yr Arglwydd; a pha ham y gwneir gwahaniaeth gyda'r Bedydd: dyna'r addewid —"I ti ac i'th had." Haera rhai nad ydyw yn fawr o les dwyn y plant i fyny yn yr eglwys, ac mai allan yr ânt yn fuan; ond dylem ni wneyd ein dyledswydd tuag atynt, gan obeithio y bydd i'r Arglwydd wneyd gwaith arnynt na fedrwn ni ei wneyd.

Y mae yn ddiddadl fod ugeiniau o blant yn ein *societies* heb erioed fyned allan, ac arwyddion amlwg o dduwioldeb arnynt. Pe eid i chwilio, ceid gweled mai y rhai sydd yn llac gyda llywodraeth deuluaidd sydd yn esgeuluso dwyn eu plant i'r eglwys; pe credem fod Duw yn gorchymyn y ddyledswydd hon arnom, fe ufuddhäem ac fe weddïem fwy dros y rhai sydd dan ein gofal. Ni ddylid meddwl mai allan yr ä y plant; cofiwn addewid Duw; gall hono fod yn galondid i ni—"A mi a dywalltaf fy yspryd ar dy had, a'm bendith ar dy hiliogaeth."

(4.) AM YR YSPRYD GLAN A'I WAITH.

(Cymanfa Llanfyllin, 1829.)

1. Y mae yn Berson. Nid cynneddf, neu briodoledd, neu weithrediad, yw yr Ysprid Glân, ond Person gwahaniaethol yn yr Hanfod Ddwyfol. Dengys yr amrywiol enwau a roddir arno ei fod yn Berson,—Dyddanydd, &c. Os nad yw yn Berson, y mae yn ofer son am ei waith: yn nghreadigaeth y byd, yr oedd ysprid Duw yn ymsymud ar wyneb y dyfnder. Y mae tri yn tystiolaethu yn y nef, sef y Tad, y Gair, a'r Ysprid Glân: sonir hefyd am "gymdeithas yr Ysprid Glân"—dyma bersonoliaeth. Ni buasai modd ei "dristâu" na "phechu yn ei erbyn," ac nis gallasai credinwyr fod yn "demlau" iddo, oni b'ai ei fod yn Berson.

2. Y mae hefyd yn Berson Dwyfol. Y mae enwau Dwyfol arno, sef "ysprid yr Arglwydd" neu ysprid Jehofah, &c.; a pherthyna iddo briodoliaethau Dwyfol, megis hollbresennoldeb—"I ba le yr âf oddiwrth dy ysprid, ac i ba le y ffoaf o'th ŵydd," Salm cxxxix. 7; hollwybodaeth—"Canys yr ysprid sydd yn chwilio pob peth, ïe, dyfnion bethau Duw," 1 Cor. ii. 10: "A'r pethau sydd i ddyfod a fynega efe," Ioan xvi. 13. Fe briodolir iddo weithredoedd Dwyfol. Trwy ei weithrediad Ef y perffeithiwyd gwaith y greadigaeth i ddechreu, a thrwy gyfrwng yr un gweithrediad Dwyfol y cedwir y peiriant mawr i fyned yn mlaen eto—"Pan ollyngech dy ysprid y crëir hwynt, ac yr adnewyddi wyneb y ddaear," Salm civ. 30. Yr Ysprid hefyd a ffurf-

iodd ddynoliaeth y Gwaredwr yn mru y wyryf. "Yr Yspryd Glân a ddaw arnat ti, a nerth y Goruchaf a'th gysgoda di, am hyny y peth sanctaidd a aner o honot ti a elwir yn Fab Duw," Luc i. 35. Telir addoliad Dwyfol iddo, erfynir bendithion Dwyfol oddiwrtho, a gweinyddir ordinhadau Dwyfol yn ei enw. Gallwn fod yn sicr fod Duw yn ei adnabod ei Hun; dylem ninau gredu ei dystiolaeth am dano ei Hun. Y mae o bwys i ni gredu yn ogyfuwchder y Personau Dwyfol: gwyliwn gael ein temtio i edrych ar un o honynt yn llai na'r llall; y mae hyn yn anmharch ac yn anfri mawr ar y Drindod Sanctaidd.

3. Y mae angen mawr arnom am yr Yspryd yn ei ddoniau a'i ddylanwadau sanctaidd. Nis gellir gwneuthur dim yn ysprydol hebddo. Er fod y Gair genym, rhaid cael yr Yspryd i ddadguddio y "pethau rhyfedd" sydd yn gynnwysedig ynddo: er fod gwirionedd Crist genym, rhaid cael yspryd Crist i gymeryd o'r eiddo, a'i fynegi i ni. Y mae eisieu yr Yspryd i wneyd pedwar peth. Y mae ei eisieu i gymhwyso yr iachawdwriaeth at gyflwr y byd,—i gynnyddu grasusau y saint,—i godi swyddogion yn yr eglwys,—ac i fendithio eu llafur a'u gweinidogaeth. Y mae rhwygiadau mawrion yn ein rhengau ni yn bresennol—tri brawd llafurus newydd ein gadael ni, a thri neu bedwar ar ddeg wedi eu colli o'n mysg er ys tua blwyddyn; y mae, felly, yn bur gymhwys i ni weddio gweddi y Salmydd—"na chymer dy yspryd sanctaidd oddiwrthym." Attolygwn am i Dduw anfon gweithwyr eto i'r cynhauaf, i godi y bylchau ac i gau yr adwyau y mae angen wedi ei wneuthur yn ein muriau.

Gan Dduw yn unig y ceir gweinidogion cymhwys y Testament Newydd; y mae yr *Academy* wedi methu eu codi i ni: y mae doniau y weinidogaeth yn ffrwyth neillduol yspryd Duw. Llefwn am dano i godi pregethwyr newydd, ac i gynnal, a llwyddo, a bendithio yr hen rai. Gwyliwn feddwl y gallwn ni wneyd hebddo, ac aros ar wastadedd y moddion heb gael yr Yspryd yn ei arddeliad a'i amddiffyn.

Rodiadau Pregethau.

NODIADAU PREGETHAU.*

I. PARCH. FOULK EVANS, MACHYNLLETH.

(Yn Llangefni, Mai, 1822.)

"Myfi yw y winwydden, chwithau yw y canghennau. Yr hwn sydd yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntau, hwnnw sydd yn dwyn ffrwyth lawer: oblegid hebof fi ni ellwch chwi wneuthur dim."—Ioan xv. 5.

Yr Arglwydd Iesu yw gwreiddyn yr Eglwys. Gwreiddyn pawb wrth natur yw yr Adda cyntaf; a'i ffrwyth ef y maent yn ei ddwyn. Gwreiddyn yr Eglwys yw yr Ail Adda; ac y mae y saint yn ymestyn at ddwyn ffrwyth yn ol ei esiampl Ef, ac er mawl gogoniant ei ras. Efe yw ei gwreiddyn cyf-

* Yr oedd yn arferiad gan Mr. W., yn enwedig yn mlynyddoedd boreuaf ei fywyd, i ysgrifenu y pregethau a wrandawai; a pharhaodd i wneuthur hyn, i fesur, hyd ddiwedd ei oes. Cadwai bob cyfleusderau at y gorchwyl yn ei gôr yn y capel—*desk*, papyr, inc, &c. Y mae rhai o'r Nodiadau hyn wedi eu hysgrifenu er's dros hanner can' mlynedd yn ol, a chynnwysa yr oll o honynt y pregethau a wrandawsai yn Sabbothol ac yn wythnosol, ac mewn Cymanfaoedd a Chyfarfodydd Misol.—Gol.

amodol—"yn yr Hwn y'n dewiswyd hefyd," Eph. i. 11; Efe yw ei gwreiddyn naturiol, fel y mae yn Dduw ac yn ddyn wedi ymddangos yn y cnawd; ac Efe hefyd yw ei gwreiddyn bywhaol neu gynhyrfiol—o'r pren y mae y canghenau yn dyfod. Felly y saint; had ysprydol Crist ydynt, "Yr hwn sydd yn credu yn y Mab, y mae ganddo fywyd tragywyddol," Ioan iii. 36. Ond y mae i Grist, fel gwinwydden ei eglwys, ddau fath o ganghenau:—

I. Y mae un math mewn undeb â Christ yn allanol yn unig. Y maent ynddo trwy fedydd—wedi eu bedyddio yn ei enw; ynddo trwy broffes—ysgrifenu â'u llaw mai eiddo yr Arglwydd ydynt. Ond y maent yn ddiffrwyth, a'u diwedd ydyw eu bod yn cael eu "tynu ymaith," er y gallant *hangio* wrth y goeden am flynyddoedd. Y dull y mae yr Arglwydd yn gwneyd hyn â hwy ydyw—1. Trwy gymeryd ei ras attaliol oddi arnynt. 2. Trwy eu gollwng i afael cyfeiliornadau. 3. Trwy eu gadael i syrthio i bechodau amlwg.

II. Yr ail fath o ganghenau ydyw y rhai sydd yn Nghrist yn wirioneddol. 1. Y mae y saint yn Nghrist. (1). Y maent ynddo yn gyfamodol er tragwyddoldeb: y mae hen berthynas rhwng Crist a'i bobl—"Megis yr etholodd efe ni ynddo ef cyn seiliad y byd," Eph. i. 4. (2). Y maent yn Nghrist trwy broffes. (3). Y maent yn Nghrist yn weithredol trwy ffydd.

2. Y rhai sydd yn Nghrist, y mae Crist hefyd ynddynt hwythau. (1.) Y mae ynddynt yn yr amlygiadau a rydd o hono ei Hun yn yr athrawiaeth neu y dystiolaeth. (2). Y

mae ynddynt yn ei ras cyfranogol—"O'i gyflawnder Ef y derbyniasom ni oll, a gras am ras," Ioan i. 16. (3). Trwy ei Yspryd—"Ac os yspryd yr Hwn a gyfododd Iesu o feirw sydd yn trigo ynoch," &c., Rhuf. viii. 11. (4). Yn ei ddylanwadau: er y dichon mai yn awr ac eilwaith y maent yn dyfod i'r golwg. Y mae y cymylau yn rhwystro i ni weled yr haul naturiol weithiau, felly y mae pechod yn cymylu rhwng y saint â Christ; ond y mae Ef ynddynt o ran ei ddylanwadau grasol pan y maent hwy yn methu ei ganfod yn eglur.

3. Y maent yn dwyn ffrwyth hefyd. Os yw Crist ynom, ac os ydym ni yn Nghrist, y mae ffrwyth i'w weled arnom i ddangos hyny. Lle y mae ffrwyth, y mae gweithredu gras, a chynnyddu mewn gras.

4. Y maent yn cael eu glanhâu hefyd fel y dygont fwy o ffrwyth. Moddion uniongyrchol eu glanhâd yw—(1). Gwaed Crist. (2). Yspryd Crist. (3). Gair Crist—"Sanct-eiddia hwynt yn dy wirionedd," Ioan xvii. 17. Moddion achlysurol eu glanhâd yw treialon a phrofedigaethau—"Trwy hyn y glanhêir anwiredd Jacob; a dyma yr holl ffrwyth, tynnu ymaith ei bechod." Es. xxvii. 9.

5. Y rhai sydd yn Nghrist, y maent yn "aros" ynddo. Beth yw hyn? (1). Aros yn ei gymdeithas ac mewn ymorphwysiad arno. "Ymddiriedwch yn yr Arglwydd byth." (2). Aros yn y defnyddiad o hono; diod yw, manna, &c., rhaid ymborthi arno, a defnyddio Crist yn ei holl gymeriadau. (3). Aros yn yr ymarferiadau o'i holl ordinhadau. (4). Aros mewn ufudd-dod i'w holl orchymynion—"A'r

hwn sydd yn cadw ei orchymynion Ef sydd yn trigo ynddo Ef, ac Yntau ynddo yntau," 1 Ioan iii. 24.

Wel, aros! Aros, er cael dy dueddu i ymadael; aros, er dy demtio i ymadael. Aros—nid wyt ti ddim yn dy le ond yma; nid wyt ti ddim yn ddiberygl ond yma; nid wyt ti ddim yn y man y mae Duw am i ti fod, ond yma. Aros—ni byddi di byth yn ffrwythlon ond yma, ac nid oes dim cymdeithas i'w gael ond yma—aros!

II. PARCH. JOHN CHARLES, GWALCHMAI.

(Yn Llangefni, Ionawr, 1824.)

"Eithr â gwerthfawr waed Crist, megis oen difeius a difrycheulyd."—1 Pedr i. 19.

I. Crist fel Oen. Defnyddid oen yn fynych yn yr aberthau o dan yr hen oruchwyliaeth, ac yr oedd yn gysgod neilldduol o'r Arglwydd Iesu. Efe yw Oen Duw. Gelwir Ef felly o herwydd ei ddiniweidrwydd. Y mae Ef yn addfwyn, yn dirion, yn llariaidd—"Cymmerwch fy iau arnoch, a dysgwch gennyf; canys addfwyn ydwyf, a gostyngedig o galon," Mat. xi. 29. Oen oedd Iesu Grist yn mhob man—"Fel oen yr arweiniwyd Ef i'r lladdfa;" fel oen y dioddefodd y poeredd a'r goron ddrain; ac y mae pob gwir gristion yn cael ei ddwyn ar ei ddelw yn hyn. Y mae'r Oen yma hefyd yn fuddiol iawn—yn fuddiol i Dduw ac i ddyn; y mae pob peth ynddo sydd ar bechadur ei eisieu—"Yr Hwn a wnaethpwyd i ni gan Dduw yn ddoethineb, ac yn gyfiawnder, ac yn sancteidd-

rwydd, ac yn brynedigaeth," 1 Cor. i. 30. Y mae gelynion iddo fel Oen—byd, cnawd, a diafol; ond yr Oen orchfyga—"Oblegid Arglwydd arglwyddi ydyw, a Brenhin brenhinoedd; a'r rhai sydd gyd âg ef, sydd alwedig, ac etholedig, a ffyddlawn," Dat. xvii. 14. Un rhyfedd yw Oen Duw; y mae yn oen o wneuthuriad Duw—o osodiad ac anfoniad Duw, ac y mae Ef ei Hun yn ddwyfol. O! Berson rhyfedd—Oen yn Dduw, a Duw yn Oen! neu fel y canodd y bardd—"Dyn yn Dduw, a Duw yn ddyn!" Y mae yn Oen difai hefyd—"difeius a difrycheulyd." Difai o ran ei Berson, difai o ran ei natur, difai o ran ei fuchedd—"Archoffeiriad sanctaidd, diddrwg, dihalog, didoledig oddi wrth bechaduriaid," Heb. vii. 26; er iddo gael ei "wneyd yn bechod," eto Efe ni wnaeth bechod, ac ni chaed "twyll yn ei enau"—ni welodd Pilat, ei farnwr, "ddim bai ynddo." Fe fu yn dlawd, ac heb le i roddi ei ben i lawr; ond y mae heddyw yn yr uwchder mwyaf—"Yn nghanol yr orseddfainc," ac angylion yn bwrw eu coronau wrth ei draed. Os oes gelyn iddo yma, dychweled ato tra y mae yn Oen, cyn iddo droi yn Llew!

II. Gwaed yr Oen. Wrth waed yr Oen y meddylir holl ddioddefiadau ei ufudd-dod, yn ei fywyd ac yn ei angeu. Y mae gwaed yr Oen yn "werthfawr waed." (1). Gwaed y Cyfamod ydyw—"Trwy waed dy ammod y gollyngais dy garcharorion o'r pydew heb ddwfr ynddo," Zech. ix. 11. Dyma bris yr eglwys; gwerth gwaed ydyw yr eglwys—"Eglwys Dduw, yr hon a bwrcasodd Efe â'i brïod waed," Act. xx. 28. (2). Y mae yn werthfawr wrth ystyried ei

effaith a'i rinwedd. Y mae wedi cymodi Duw—"Wedi iddo wneuthur heddwch trwy waed ei groes Ef," Col. i. 20. Y gwaed sydd yn cyfiawnhau yr annuwiol—"A nyni yn awr wedi ein cyfiawnhau trwy ei waed Ef," Rhuf. v. 9. Y gwaed sydd yn maddeu pechodau—"Gwaed Iesu Grist ei Fab Ef sydd yn ein glanhau ni oddi wrth bob pechod," 1 Ioan i. 7. Y mae yn resyn meddwl am y miloedd sydd heb ei weled; ond y mae cymaint o werth ynddo, fe fydd canu am dano byth: dyma fydd testyn cân angylion a saint —"Iddo Ef yr Hwn a'n carodd ac a'n golchodd ni!"

III. PARCH. JOHN ELIAS, LLANFECHELL.

(Yn Llangefni, Medi, 1826.)

"Llawer a ddywedant wrthyf yn y dydd hwnnw, Arglwydd, Arglwydd, oni phrophwydasom yn dy enw di? ac oni fwriasom allan gythreuliaid yn dy enw di? ac oni wnaethom wyrthiau lawer yn dy enw di? Ac yna yr addefaf wrthynt, Nis adnabûm chwi erioed: ewch ymaith oddi wrthyf, chwi weithredwyr anwiredd."—Mat. vii. 22. 23.

Dyna sydd yn y geiriau hyn—rhagrithwyr wedi syrthio i ddwylaw eu Barnwr. Gallwn sylwi—I. Ar dwyll eu camgymeriad. II. Geudeb eu dadl. III. Ofnadwyaeth eu dedfryd—"Nis adnabûm chwi erioed," &c.

I. Eu camgymeriad. Gwreiddyn eu camgymeriad oedd —1. Anwybodaeth. Ni wyddent nad oedd modd bod yn gadwedig heb ymdrech a hunanymwadiad, heb eu haileni a'u sancteiddio—"Nid yw ein hymdrech ni yn erbyn gwaed a chnawd, ond yn erbyn tywysogaethau, yn erbyn awdur-

dodau," &c; Eph. vi. 12. Y mae yr efengyl yn gofyn i ni "roddi cwbl ddiwydrwydd" at ein mater mawr: nid tan gysgu yr awn ni i'r nefoedd. 2. Esgeulusdra. Y mae llawer yn gwybod ewyllys y Tad, ond nid dyna y sawl a ä i mewn i deyrnas nefoedd, ond "yr hwn sydd yn gwneuthur ewyllys fy Nhad yr Hwn sydd yn y nefoedd." 3. Hunan-gariad. Yr wyt ti yn gwybod fod dy gymydog yn ddyn annuwiol, ond paham na farnet ti dy hun felly, a thithau yn byw yn union yr un fath ag yntau: yn dy hunan-gariad yr wyt ti yn taflu y gwirioneddau sydd yn dy gyhuddo, tu ol i'th gefn. 4. Gau dyb am Dduw. Nid oes gan y rhagrithiwr iawn olwg ar sancteiddrwydd Duw a phurdeb a manylrwydd ei gyfraith: gall ambell daran ei ddychrynu weithiau, y mae yn wir; ond buan y derfydd peth felly, ac y mae yntau yn syrthio i'w hen gyflwr. 5. Gau dyb am ei ddoniau a'i gymhwysderau ei hun. Felly yr oedd y bobl hyn: "oni phrophwydasom yn dy enw di," &c.,—yr ydym ni yn ddynion sydd wedi bod mewn swyddau uchel yn dy deyrnas di,—yr ydym ni wedi bod yn dy broffesu di,—yn gweddio arnat ti,—ac yn pregethu yn dy enw di; ond erbyn i'r Barnwr fyned i'w chwilio, nid oedd ganddynt ddim ond rhagrith!

Y mae pob rhagrithiwr yn mhell oddi wrth Grist. (1). Yn mhell oddi wrth wybod yn effeithiol am Grist. Y mae ei hanes ganddo, ac fe all ei ddilyn o gam i gam trwy holl ystod ei fywyd; ond ni chafodd erioed gipolwg ar ogoniant Person Mab Duw. Rhaid i ni ddysgu dweyd fel Ioan weithiau—"Ac ni a welsom ei ogoniant Ef," &c. (2). Yn

mhell o fod mewn undeb â Christ. (3). Yn mhell o fod yn gyfranog o Grist. Nid oes modd achub heb hyn. Er ei fod yn feddyg, yn iawn, yn ffynnon, &c., ni chedwir neb heb eu gwneyd yn gyfranog o'i rinwedd a'i haeddiant. Holwn ein hunain, a yw Crist ynom? (4). Yn mhell o fod mewn cyfeillach â Christ. Y mae y rhai a gedwir yn dweyd fod eu cymdeithas hwy yn wir gyda'r Tad, a chyda'i Fab Ef, Iesu Grist. (5). Yn mhell o fod yn debyg i Grist.

I ddyfod at Grist yn iawn, rhaid i ni yn—1. Weled ein hangen o hono. Nid oes neb yn *ffitio* eu gilydd yn well na Christ a phechadur; ac y mae pawb sydd yn dyfod ato yn iawn yn teimlo felly. (2). Rhaid i ni hefyd gael golwg ar bechod, a thruenusrwydd ein cyflwr: y dyn sydd yn cael iawn olwg ar bechod, nid all lai na myned at Grist am ei fywyd. (3). Rhaid ein hysgar ni oddi wrth bob peth arall. Y mae rhyw bobl yn rhy brysur i ddyfod at Fab Duw; yn nghanol eu masnach, a'u helynt, a'u bydolrwydd, y maent yn ormod eu gofal a'u trafferth i geisio Duw. (4). Rhaid symud y rhagfarn sydd yn ein calon yn erbyn Crist: yr oedd yr Iuddewon yn ormod eu rhagfarn i'w dderbyn. O! golled y bobl sydd yn gwrthod dyfod at Fab Duw i'w hachub!

IV. Y PARCH. EBEN. RICHARDS, TREGARON.

(Mewn Cymanfa yn Sir Fon, 1828.*)*

"Wele, y mae efe yn dyfod gyd â'r cymmylau; a phob llygad a'i gwel ef, ïe, y rhai a'i gwanasant ef: a holl lwythau y ddaear a alarant o'i blegid ef. Felly, Amen."—Dat. i. 7.

Y gwrthddrych y sonir am dano yma yw "efe," sef Iesu.

I. Am ei ddyfodiad. Wrth hyn y meddylir ei ail ddyfodiad. Y mae wedi dyfod unwaith; ond bydd ei ddyfodiad yr ail waith yn dra gwahanol i'w ddyfodiad y waith gyntaf—fe "ymddengys yr ail waith, heb bechod," Heb. ix. 28. Yn ei ddyfodiad cyntaf yr oedd yn dlawd, ac heb le i roddi ei ben i lawr; ond pan y gwelir Ef yn dyfod ar y cymylau, fe fydd hyny "gyda nerth a gogoniant mawr." Dyma ei ddyfodiad olaf—ei daith olaf, i farnu y byd; ac wedi y derfydd hyny, fe ä a'i blant adref gydag Ef—"Yr wyf yn ewyllysio, lle yr wyf fi, fod o honynt hwythau hefyd gyd â myfi," Ioan xvii. 24.

II. Dull ei ddyfodiad—"gyda'r cymylau." Y mae hyn yn dysgu i ni amryw bethau. (1). Mai oddi uchod y bydd yn dyfod. Pan y byddwn ni yn edrych ar y cymylau, i fyny y byddwn ni yn edrych; felly y byddys yn edrych pan ymddangoso Crist—i fyny, gan "ddysgwyl am ei Fab Ef o'r nef." (2). Dengys hyn y bydd yn ddyfodiad cyflym—"Oblegid fel y daw y fellten o'r dwyrain, ac y tywynna hyd y gorllewin; felly hefyd y bydd dyfodiad Mab y dyn," Matt. xxiv. 27. (3.) Bydd hefyd yn anwrthwynebol iawn.

Ni fyddai wiw i'w elynion ar y ddaear dreio ei rwystro i'r farn: bydd Ef uchod oddi arnynt, ac "yn dyfod gyda'r cymylau." (4). Fe fydd yn dyfod gyda rhwysg mawr. Bydd enwogrwydd mawr arno y boreu hwn yn marchog ar ei "gwmwl gwyn," "a chanddo ar ei ben goron o aur, ac yn ei law grymman llym," Dat. xiv. 14. (5). Bydd ei ddyfodiad "gyda'r cymylau" yn ddyfodiad amlwg iawn—"A phob llygad a'i gwel Ef." Bydd llawer o lygaid yn edrych, a llawer math o lygaid; ond "pob llygad a'i gwel Ef:" rhai er eu galar a'u dychryn, a rhai er eu cysur a'u gorfoledd. Diwrnod mawr fydd hwnw pan y cawn ei gyfarfod yn yr awyr! Cyn hyny, bid sicr, rhaid myned i gysgu gronyn yn y bedd; ond diwrnod yr adgyfodiad, fe ofala ein Brawd Hynaf am ein galw ni yn ddigon buan. Pan y mae plant bach yn meddwl fod rhyw beth rhyfedd i fod dranoeth, nid ydynt yn foddlawn i fyned i'w gwelyau; ond y mae y tad yn ceisio yn dirion ganddynt fyned, ac yn addaw eu galw i fyny boreu dranoeth. Felly ninau, byddwn foddlon i fyned i'r bedd; y mae Brawd i ni wedi bod yno o'n blaen, ac y mae yn addaw ein codi ni yn ddigon buan, i gyfarfod ein brodyr ar y llawr—"A mi a'i hadgyfodaf ef yn y dydd diweddaf."

III. Effeithiau ei ddyfodiad. Bydd yr effeithiau hyn yn arswydus i rai pobl, yn enwedig i wrthgilwyr, a'r "rhai a'i gwanasant Ef," &c.: ond bydd rhai ar dir digon cadarn i ddweyd—"Tyred, Arglwydd, Tyred, Amen!"

"Wele'n dyfod ar y cwmwl—
Mawr yw'r enw sy iddo'n awr," &c.

V. Y PARCH. H. GWALCHMAI, LLANIDLOES.

(Yn Nghymanfa Caergybi, 1830.)

"Canys meirw ydych, a'ch bywyd a guddiwyd gyd â Christ yn Nuw."—Col. iii. 3.

Fe lefarwyd y geiriau hyn fel cymhelliad i ni i "geisio y pethau sydd uchod." Y mae genym y rheswm cryfaf i wneyd hyn—"Am hynny os cyd-gyfodasoch gyd â Christ, ceisiwch y pethau sydd uchod." "Uchod" y mae'r pethau mawr; "uchod" y mae Duw, a'i angylion, a'i saint; ac "uchod" y mae Crist yn eistedd ar ddeheulaw gorseddfainc Duw. Y mae dau beth yn adnod y testyn—bywyd a marwolaeth.

I. Ni a sylwn ar y farwolaeth y sonir am dani yma—"meirw ydych." Hyny yw, meirw ydych i'r byd, i'r ddeddf, ac i bechod—"Cyfrifwch eich hunain yn feirw i bechod," Rhuf. vi. 11. Y mae dau fath o farw—marw i bechod, a marw mewn pechod. Y mae'r annuwiol yn marw mewn pechod; y mae'r saint yn marw i bechod. Meddai Crist wrth yr Iuddewon, gyda golwg ar eu gwrthodiad o hono Ef fel Messiah—"Chwi a fyddwch feirw yn eich pechodau," Ioan viii. 24. Dyma y farn drymaf a all ddisgyn ar ddyn! Ond y meddwl yn y testyn ydyw, marw i bechod—i bechod yn ei felldith a'i gondemniad; ac y mae yr hwn a fu farw iddo, wedi ei ryddhau oddi wrtho, Rhuf. vi. 7. Felly Crist hefyd; "Canys fel y bu efe farw, efe a fu farw unwaith i

bechod," Rhuf. vi. 10. Felly credinwyr; y maent i gyfrif eu hunain yn feirw i bechod yn Nghrist Iesu. Ni raid i'r saint farw dros bechod, fel y damnedigion yn y trueni, er nas gallant hwy byth ddyfod yn rhydd oddi wrtho: ond y mae Crist wedi marw dros bechod ar ran credinwyr; ac ar ei waith yn gwneyd hyny, bu farw iddo, nid yn unig ar ei ran ei Hun, ond ar ran ei bobl, fel y maent hwy wedi eu "rhyddhau oddi wrth bechod" am byth. Nid yw athrawiaeth fel hyn yn arwain i Antinomiaeth a phenrhyddid, canys po fwyaf y mae y dyn duwiol yn teimlo ei fod wedi marw i bechod yn ei undeb â Christ, mwyaf byw ydyw i'r teimlad o'i bechadurusrwydd ei hun—"Pan ddaeth y gorchymyn, yr adfywiodd pechod," Rhuf. vii. 9.

II. Y mae yma fywyd. Y rhai sydd wedi marw i bechod, y maent yn meddu ar "fywyd." Crist yw eu bywyd; Efe yw cwbl eu bywyd. 1. Natur y bywyd. (1). Y mae yn fywyd o gyfiawnhad—"Ni ddaw i farn, eithr efe a aeth trwodd o farwolaeth i fywyd," Ioan v. 24. Pwy ydynt? credinwyr! Yr oeddynt, wrth natur, yn euog, ac o dan gondemniad; ond yn y cyfiawnhad fe roddwyd mantell cyfiawnder am danynt. Dyna'r "wisg briodas"—y "llïan main glân a disglaer: canys y llïan main ydyw cyfiawnder y saint," Dat. xix. 8. (2). Bywyd o ras ynddynt—"Y dwfr a roddwyf iddo, a fydd ynddo yn ffynnon o ddwfr yn tarddu i fywyd tragywyddol," Ioan iv. 14. Nid pwll marw ydyw ffynnon; na, peth yn "tarddu" ydyw, ac yn peri cysur, a bywyd, a ffrwythlondeb. Nid bywyd llonydd ydyw bywyd ffydd—"Gwaith eich ffydd chwi, a llafur eich

cariad," 1 Thess. i. 4. 2. Diogelwch y bywyd—bywyd wedi ei "guddio" ydyw; ac mewn man digon diogel—"Gyda Christ yn Nuw." Nid oes neb tebyg i Dduw am guddio. Fe guddiodd gorph Moses, fel nad ydyw y diafol, na neb arall, wedi llwyddo i ddyfod o hyd iddo; ond pa faint mwy diogel ei enaid! O! guddio mawr—"Gyda Christ yn Nuw!" Cuddio yn nghariad Duw,—cuddio yn nghyfamod Duw,—cuddio yn Nuw ei Hun. Gwyn fyd y bobl y mae Duw yn eu cuddio!

VI. Y PARCH. JOHN HUGHES, WREXHAM.

(Yn Llangefni, 1830.)

"A phan ddaeth atto ei hun, efe a ddywedodd, Pa sawl gwas cyflog o'r eiddo fy nhad sydd yn cael eu gwala a'u gweddill o fara, a minnau yn marw o newyn."—Luc xv. 17.

Y mae yn y bennod hon dair o ddamegion, a damegion fe allai, mwyaf neillduol yr Arglwydd Iesu. Mater mawr y bennod ydyw parodrwydd Duw i dderbyn y cymeriadau gwaethaf; ac mor bwysig oedd hyn ar feddwl Iesu Grist, fel y llefarodd dair dameg yn olynol, i argraffu y peth ar feddyliau ei wrandawyr. Y mae y geiriau hyn yn rhan o Ddameg y Mab Afradlon—"A phan ddaeth ato ei hun," &c.

I. Bod dyn, trwy bechod, allan o'i bwyll. Felly y dengys yr Ysgrythyr i ni—"Pa hyd, chwi ynfydion, y cerwch ynfydrwydd? ac y casâ ffyliaid wybodaeth?" "Y ffyliaid a ymhyfrydant mewn camwedd," Diar. i. 22; xiv. 9. "Yr

ynfyd a ddywedodd yn ei galon, Nid oes un Duw," Salm xiv. 1. "O ynfyd, y nos hon," &c., Luc xii. 20. Y mae tebygolrwydd rhwng gwallgofrwydd ysprydol a gwallgofrwydd naturiol. (1). Nid oes gan y dyn gwallgof ond golwg ysgafn ar y pethau trymaf eu pwys. Pethau pwysig ydyw angeu, barn, a thragwyddoldeb; ond yn eu rhyfyg a'u hannuwioldeb, nid oes gan ddynion ond golwg ysgafn ac arwynebol ar bethau felly. (2.) Y maent yn esgeulus a diofal yn ngwyneb y peryglon mwyaf. Rhybuddiodd Lot ei berthynasau o'u cyflwr peryglus, ond "yn ngolwg ei ddawon yr oedd efe fel un yn cellwair," Gen. xix. 14. Pe gwelid dyn mewn ystorm yn chwareu ac yn cellwair ar ben y *mast*, fe ystyrid y dyn hwnw yn wallgof; ond pa faint mwy gwallgof ydyw y dynion hyny sydd yn gallu chwareu uwch ben dinystr a cholledigaeth dragwyddol, (3). Y maent yn dewis y pethau gwaelaf o flaen y pethau mwyaf gwerthfawr —"Paham y gweriwch arian am yr hyn nid ydyw fara? a'ch llafur am yr hyn nid yw yn digoni?" Es. lv. 2. (4). Gall fod cyfoeth lawer yn perthyn iddo, ond nid oes ganddo ef hawl i'w feddu, na gallu i'w ddefnyddio.

II. Y mae Duw yn dwyn pawb y mae yn ei achub, "ato ei hun." Beth yw hyny?—iawn farn am dano ei hun, argyhoeddiad o bechod, &c.

III. Effeithiau hyn ar feddwl yr afradlon—"a minnau yn marw o newyn:" nid oedd erbyn hyn yn gweled dim o'i flaen ond *marw!*

VII. Y PARCH. HENRY REES, LIVERPOOL.

(Yn Pentraeth, Mehefin 29ain, 1840.*)*

"Ac am hyny y mae efe yn Gyfryngwr y cyfammod newydd, megis trwy fod marwolaeth yn ymwared oddi wrth y troseddau oedd dan y cyfammod cyntaf, y cai y rhai a alwyd dderbyn addewid yr etifeddiaeth dragywyddol." —Heb. ix. 15.

Nid oedd marwolaeth yr aberthau "dan y cyfammod cyntaf," neu yr hen oruchwyliaeth, yn ddigonol i ddwyn "ymwared oddi wrth y troseddau" oedd o dan y cyfammod hwnw. Nid oedd gallu na chymhwysder ynddynt ond i "sancteiddio i bureiddiad y cnawd;" nis gallent ryddhau oddi wrth euogrwydd a melldithion deddf Duw. Ond daeth Crist "i ddybenu camwedd" ac i "ddileu pechod, trwy ei offrymu ei hun;" ac ar sail yr aberth hwnw y derbyniodd seintiau yr hen oruchwyliaeth eu rhyddhad, trwy fod marwolaeth y Cyfryngwr yn rhoddi perffaith "ymwared oddi wrth y troseddau oedd o dan y cyfammod cyntaf." Ac os gwnaed hyn â duwiolion yr Hen Destament, y mae ein "hymwared" ni o dan y "cyfammod newydd," os yr un, yn fwy sicr; canys dyma Grist bellach wedi marw, a chodi o'r bedd, ac "esgyn goruwch yr holl nefoedd."

I. Gallwn sylwi fod Duw, o'i gariad, wedi darparu i ryw filoedd o blant dynion "etifeddiaeth dragwyddol." Gelwir hi yn "etifeddiaeth," i ddangos—(1.) Mai *rhodd* ydyw, ac mai nid dynion a'i casglodd. Pan y mae dyn yn casglu arian, ac

yn prynu tir, y mae y mab i'r hwn y rhoddir y tir, yn cael ei alw yn etifedd. Felly yma—y mae y saint trwy Grist yn etifeddion Duw, &c. (2). Gelwir hi hefyd yn "etifeddiaeth," o herwydd y *berthynas* sydd rhwng y saint â Christ.

II. Ni a ymofynwn beth y mae y saint yn ei etfeddu. (1.) Y mae Duw yn dyfod yn Dduw iddynt. Y mae pob peth a all Duw, a fedd Duw, ac a wna Duw, yn eiddo iddynt; dyma swm y cwbl. Y mae y ddeddf foesol, yn yr ugeinfed bennod o Exodus, yn ddeg o orchymynion; ond weithiau crynhöir hwynt i un gorchymyn mawr—"Câr yr Arglwydd dy Dduw a'th holl galon," &c. Ac felly y mae addewidion y Beibl yn amrywio llawer o ran eu natur a'u dyben; ond dyma swm y cwbl—"Myfi a fyddaf yn Dduw i chwi." (2.) Y maent yn etifeddu cyfiawnder. Nid hwy a'i casglodd, ond Crist yn ei fywyd a'i angeu. Beth ydoedd yn ei wneyd tua Bethlehem, ond parotoi i gasglu; beth tua Nazareth a glanau yr Iorddonen, ond dechreu casglu y defnyddiau at eu gilydd; a chasglu y bu ar hyd ei fywyd i gyd, nes cyrhaedd y gair "Gorphenwyd." Bellach, wedi ei wisgo yn y cyfiawnder hwn, gall Duw edrych ar y pechadur euog yn ddibechod; yn ei Fab gall edrych arno fel pe b'ai wedi cyflawni yr holl ddeddf. Mae Duw yn gwenu arno, a'r holl briodoliaethau yn gwenu arno; ac ni welir gwg ar wyneb un o honynt byth. (3). Y maent yn etifeddu gras y bywyd. Y mae hwn yn fywyd o sancteiddrwydd. Dyma ddelw Duw, yspryd Duw yn y dyn yn ei feddiannu, ac yn ei wneyd yn deml iddo. Y mae felly yn "etifeddiaeth deg," gan fod hapusrwydd yn y cyflawniad o bob gras: y

mae pob *act* o ras yn gwneyd yr enaid yn ddedwydd. Y mae dynion yn hapus pan y maent yn caru eu gilydd; pa faint mwy felly, pan y maent yn gallu caru Duw. (4.) Y maent yn "etifeddu y ddaear." Er y gall trallodau ddyfod i'w rhan yma, a thlodi, a chroesau, a chystuddiau, ond y mae pob peth yn cydweithio er daioni iddynt, Rhuf. viii. 28. Nis gwn i pwy sydd yn etifeddu y ddaear fel plant Duw; nid oes neb ond hwy a hawl gyfreithlawn i fod yma; ac y mae pob peth yn eiddo iddynt, pa un bynag ai y byd, ai bywyd, ai angeu, ai pethau presennol, ai pethau i ddyfod. Y mae y cwbl yn ddarostyngedig iddynt, a than deyrnged iddynt er eu hymwared a'u hamddiffyn. Y mae y graig dân cyn hyn wedi pistyllio dwfr iddynt, a'r nefoedd wedi eu porthi â bara; ac y mae y ser cyn hyn wedi bod yn ymladd eu brwydrau. Nid oes neb ond duwiolion hefyd yn gallu gwir fwynhau pethau y byd yma, &c. (5.) Etifeddu y deyrnas a barotowyd er cyn seiliad y byd; ac yna fe fydd Crist yn rhoddi y deyrnas i fyny i'w Dad. Fe fydd hyn yn beth mawr yn y nefoedd!

"Addewid yr etifeddiaeth." Nid yw y saint yma yn dyfod i gyflawn feddiant o'u hetifeddïaeth, ond y mae yr "addewid" yn rhoi iddynt yn awr gyflawn hawl iddi. Yn ngoleu yr addewid, y maent yn cael ambell gip-olwg ar eu hetifeddiaeth—yma y mae hanes y 'stad. Yn yr addewid, y mae Duw yn ei rhoddi iddynt; ac ar sail yr addewid, y maent hwythau yn ei derbyn. Meddai Duw yn yr addewid, "Mi a fyddaf yn Dduw i ti;" "Amen," meddai y cristion, "y Duw hwn fydd fy Nuw i byth!" Y mae'r holl etifedd-

iaeth yn selliedig ar gyfiawnder—"Ffyddlawn yw Efe a chyfiawn;" a chyfiawnder ydyw yn wir—"Yr Arglwydd ein cyfiawnder." Yr Arglwydd ei Hun a'i gwnaeth, ac fe'i gwnaeth yn gwbl i bechadur. Nid iddo ei Hun—nid oedd arno Ef eisieu cyfiawnder, ond y mae arnom ni; a dyma fe i ni; ac nid oes dim rhyngom a'i feddu, ond ei dderbyn o law yr "addewid."

VIII. Y PARCH. DAVID JONES, CAERNARFON.

(Yn Pentraeth, Mawrth, 1844.)

"A byddwch bawb yn ostyngedig i'ch gilydd, ac ymdrwsiwch oddi fewn â gostyngeiddrwydd."—1 Pedr v. 5.

I. Ni a ymofynwn, i ddechreu, pa beth yw gostyngeiddrwydd. Rhaid gwahaniaethu rhwng gostyngeiddrwydd ac yspryd isel, melancolaidd. Gall hwn godi oddi ar wendid neu anhwyldeb corph a meddwl; ac nid yn unig nid oes dim rhinwedd neu sancteiddrwydd mewn yspryd felly, ond gall, weithiau, fod yn beth pechadurus, a pheri llawer o flinder i'r dyn ei hun. Y mae gwir ostyngeiddrwydd yn codi oddi ar syniad teilwng am fawredd Duw, a'n gwaeledd a'n trueni ein hunain. Mewn trefn i'w ddeall, gall fod yn fantais i ni edrych arno yn ngoleu ei wrthwyneb, sef balchder. Y mae yspryd balch, yn yspryd anniddig ac anniolchgar; ond fe ddywed y dyn gostyngedig, "Trugaredd yr Arglwydd yw na ddarfu am danaf." Y mae y dyn balch yn ystyried ei hun yn uwch na phawb; ac iaith ei galon yw, fel

y Pharisead—"Yr wyf yn diolch nad wyf fi fel y mae dynion ereill; ond rhaid cael gostyngeiddrwydd i ddweyd—"O Dduw, bydd drugarog wrthyf fi, bechadur!"

Pe caem iawn olwg arnom ein hunain, nis gallem byth fod yn falch a ffroen-uchel. Yr ydym mewn llawer o bethau yn gydradd â'r anifail tlawd. Yr ydym wedi ein llunio yn yr un modd ac o'r un defnydd; wedi ein tori o'r ddaear fel yntau, ac yn cael ein hymborth o honi; a byddwn eto yn syrthio i'r ddaear fel yntau. Felly yr oedd Solomon yn gweled—"Digwydd meibion dynion a ddigwydd i'r anifeiliaid: fel y mae y naill yn marw, felly y bydd marw y llall; ïe, yr un chwythad sydd iddynt oll; fel nad oes mwy rhagoriaeth i ddyn nag i anifail: canys gwagedd yw y cwbl. Y mae y cwbl yn myned i'r un lle: pob un sydd o'r pridd, a phob un a dry i'r pridd eilwaith," Preg. iii. 19, 20. Y mae y dyn gostyngedig yn teimlo ei hun yn ddyledus i'r anifail am lawer iawn o bethau. Nerth,—rhaid cael ei fenthyg gan yr anifail; cyflymdra,—ni feddwn ni ef, rhaid i ni ei gael gan yr anifail. Mor ddyledus ydym i'r anifeiliaid am lawer o gysuron a moethau bywyd! Y mae'r ddafad dlawd yn tynu oddi am dani bob blwyddyn i'n gwisgo ni, &c. Ac er fod enaid gan ddyn a chynneddfau cryfion, eto y mae wedi defnyddio y rhai hyn yn llawer gwaeth nag y buasai yr anifail. Dyma y rheswm paham y gorchymynir i ddyn droi at y creaduriaid i ddysgu llawer o rinweddau—y durtur, y wenol, y morgrugyn, &c.; "dos at y morgrugyn, tydi ddiogyn," &c.; ac hyd yn oed y pethau hyny y mae yn rhagori arnynt, nid oes ganddo le i ymfalchïo; canys y mae

yr holl ragoriaeth i'w briodoli, nid iddo ei hun, ond i'w Greawdwr doeth a da.

II. Yr angenrheidrwydd am ostyngeiddrwydd. Y mae y gras hwn mor anhebgorol angenrheidiol fel nas gellir cyflawni unrhyw wasanaeth crefyddol hebddo; y mae holl ddyledswyddau yr efengyl yn gofyn meddwl gostyngedig, a chyda yr yspryd yma y maent yn myned yn lled hawdd. Ni fyddai ddim yn anhawdd addoli, pe baem ni yn gallu bod yn ddigon gostyngedig; ac edifarhau am bechod—ni fyddai hyny ddim mor anhawdd, ond i ni allu myned yn ddigon isel mewn gostyngeiddrwydd, &c. Fe allai mai y ddyledswydd fwyaf anhawdd yw gweddio dros ein gelynion, a gofyn i Dduw faddeu iddynt. "Porth cyfyng" yw hwn: ond fe aeth Iesu Grist drwyddo ar y groes—"O Dad, maddeu iddynt;" ac fe aeth Stephan drwyddo dan y gawod gerrig—"Ac efe a ostyngodd ar ei liniau, ac a lefodd â llef uchel, Arglwydd, na ddod y pechod hwn yn eu herbyn," Act. vii. 60. Nid yw y mynyddoedd uchel yn cael fawr o les oddi wrth y gwlaw—y dyffrynoedd wrth eu traed sydd yn cael eu bendithio gan y cawodydd; felly yr enaid gostyngedig. Yn y dyffryndir y tyf y grawnwin: grawn gwylltion sydd yn tyfu ar y mynyddoedd uchel. Myfyriwn lawer ar Dduw yn ei fawredd, ac ar Grist yn ngostyngeiddrwydd ei gymeriad; daw hyn â ni i gywilyddio o herwydd ein balchder, ac i ymostwng yn edifeiriol ger bron y Goruchel a'r Dyrchafedig.

ARGRAFFWYD GAN

ADAM EVANS,

MACHYNLLETH.